

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 366 - 60c
Medi 2018

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanyby, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cyril yn
cael ei
anrhydeddu**



Tudalen 2

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 23

**Tymor
prysur ein
sioeau lleol**



Tudalen 10

Llwyddiannau Eisteddfod



Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd, Pencarreg yn ennill Coron Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen gyda dawnswyr o Ysgol Bro Pedr. Hefyd, hi enillodd y Fedal Ryddiaith yn yr un Eisteddfod. Cafodd Heiddwen ail agos yng ngwobr Goffa Daniel Owen yn y Brifwyl yng Nghaerdydd ac yno hefyd y gwelwyd ei drama 'Milwr yn y Meddwl'. Haf i'w gofio i ti Heiddwen.



Enillwyd y gadair eleni gan un o dîm Talwrn y Beirdd Tanygroes sef Philippa Gibson o Bontgarreg. Dyma'r ail gadair iddi ei hennill yn Eisteddfod Llamed.



Ar y chwith Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni a enillodd y Darian am Lefaru ac ar yr Unawd dan 8 oed a'i chwaer Alwena yn cipio'r gwobrau canlynol - Unawd 10-12 oed; Llefaru 10-12 oed; Unawd offerynnol dan 12 oed; Alaw Werin dan 12 oed a hi hefyd dderbyniodd y Rose Bowl a gynigiwyd i'r cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed yn yr Adran Gerdd; ac Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnwydd hithau yn ennill y Cwpan ar yr Unawd 8-10 oed a Tharian y Llefaru 8-10 oed.

Anrhydeddau lleol yn y Sioe



Bob blwyddyn mae'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol yng Nghymru yn cyflwyno gwobrau er anrhyddedd i unigolion sydd wedi rhoi gwasanaeth hir a nodedig i'r Gymdeithas. Cyflwynwyd 12 o wobrau er anrhyddedd yn y Sioe eleni yn cynnwys dau o fedalau arian y Sioe. Cyflwynwyd rhain i Mr W.I. Cyril Davies a Mr Edward Morgan i gydnabod eu cyfraniad arbennig. Mae Cyril wedi rhoi ei wasanaeth am bron 7 mlynedd yn Is-gadeirydd Cyngor y Gymdeithas ac mae wedi bod yn aelod o'r Cyngor ers 30 mlynedd. Bu hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am 26 mlynedd ac yn aelod gweithgar o sawl pwyllgor allweddol.

Mae Cyril hefyd wedi cynrychioli'r Gymdeithas ar CARAS (Gwobrau'r Cymdeithasu Amaethyddol) am 18 mlynedd a bu'n Gadeirydd Cenedlaethol o 2009 – 2011. Mae hefyd yn aelod brwd o'r panel cymedrolwyr.



Barrie J Jones, Llanbed yn derbyn Tystysgrif Cymrodoriaeth CARAS gan Terrig Morgan, Cadeirydd Cenedlaethol CARAS.

Teitl: Hybu Cig Oen Cymreig Gartref a Thramor



Canon Eileen Davies, Llanllwni yn derbyn Tystysgrif Cymrodoriaeth CARAS gan Terrig Morgan, Cadeirydd Cenedlaethol CARAS

Teitl: Gwraig Ffarm



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Awst 11

Diwrnod da yn Sioe Cwmsychpant heddi. Arian da wedi ei godi i [@DiabetesUK](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@Craffwr](#)
Awst 11

Gêm gyfeillgar gyffrous rhwng [@LampeterTownRFC](#) ac [@AlltwenRFC](#) heddiw. 10 pwynt yr un.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@MaredRandJones](#)
Awst 10

Diwrnod da yn Sioe Llambod heddi.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@CorCwmann](#)
Awst 8

Diwrnod o hwyl yn yr [@eisteddfod](#) Genedlaethol heddiw. Diolch i [@LlywodraethCym](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Awst 4

Digon o hwyl yng Ngharnifal [#Llanbed](#) heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@drindoddewisant](#)
Gorffennaf 28

Diwrnod gwych yn [#Llanbed](#) heddiw ar gyfer Gŵyl Fwyd [@LampeterFoodFes](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Medi a Hydref Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325

Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Prifwyl bro

Eleni eto ar gyfer fy ngholofn ym mis Medi rwy' am dynnu sylw darllenwyr Clonc at un o brif wyliau diwylliannol yr ardal. Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llambedr Pont Steffan. Tipyn o enw – a thipyn o eisteddfod!

Dyma dridiau sy'n llawn diwylliant – canu, adrodd (neu lefaru os ydych chi'n dilyn y trend!), llenyddiaeth, celf a chreffft – mae rhywbeth at ddant pawb yma, glei. A chyfle am glonc dros banded yn y caffi dros-dro ar safle Ysgol Bro Pedr. Rydw i'n gredwr mawr mewn eisteddfod, nid yn unig am fy mod i'n licio'r math yma o ddiwylliant, ond am fod llwyfan yn rhoi hyder i rywun. Nid pawb sydd eisiau siarad yn gyhoeddus, ac nid pawb sydd wir yn gallu, ond o leia mae eisteddfoda'n rhoi'r cyfle i rywun berfformio o ryw fath o flaen cynulleidfâ.

Rydw i wedi cyfeirio at lywyddion yr Eisteddfod fwy nac unwaith yn Clonc hefyd. Er fy mod i'n credu ei bod hi'n job rhagori ar Ferched Cribyn (Olwen, Llinos a Dilwen) yn Eisteddfod 2014, roedd yr eisteddfod eleni eto yn dangos bod dewis y llywyddion yn ddoeth yn rhywbeth pwysig i'r eisteddfod ac i'r unigolion sy'n cael eu hanrhydeddu. Cawsom ni eleni gymysgedd o'r lleol a'r cenedlaethol. Eiry Jones, cyn arweinydd Côr Crymych, sydd bellach wedi ymgartrefu yn Llambled, oedd llywydd dydd Sadwrn. Dyma wraig y 'pethe' sydd wedi cyfrannu at ei bro, ac sy'n parhau i gefnogi diwylliant yma yn lleol. Ar y dydd Sul, anrhydeddwyd Jeanette Massocchi, gwraig annwyl a gostyngedig o ardal y Fenni sydd wedi gwasanaethu fel cyfeilydd i'r eisteddfod am flynyddoedd. Ac ar y dydd Llun, y bachgen lleol Ben Lake sydd wedi cyflawni camp arbennig wrth ennill etholiad i gynrychioli Ceredigion yn San Seffan, ac sy'n gwneud hynny gyda brwdfrydedd ac urddas.

Ymfalchiwn ym mhob cyfle a gawn yn lleol i gyfrannu at weithgareddau – sioeau amaethyddol, carnifal, ac ati, a diolchwn am bobol sy'n gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni i baratoi at ddigwyddiadau o'r fath.

Cloncen

Dwy fest ryngwladol arall i Beca

Yn dilyn tymor prysur a llwyddiannus yn ystod 2018, gan gynnwys ennill Pencampwriaeth Athletau Cymru a Phencampwriaeth Ysgolion Cymru yn y naid driphlyg o dan 17 oed, cafodd Beca Roberts ei dewis yn aelod o garfan Cymru i gynrychioli ei gwlad ar ddau achlysur. Teithiodd i Stadiwm Grangemouth yn yr Alban ar yr 21ain o Orffennaf ar gyfer y Bencampwriaeth Ryngwladol i ysgolion (SIAB), gan ddychwelyd eto i'r un lle bythefnos yn ddiweddarach, ar Awst y 4ydd, ar gyfer y Gemau Celtaidd.

Gyda balchder i gynrychioli Cymru a phenderfyniad ei chymeriad, fe ymgododd Beca i'r her, gan ennill record bersonol newydd ar y ddau achlysur. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yr un yw'r dymuniadau i Osian ei brawd, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn amryw o gystadlaethau ar draws Cymru yn y naid uchel a ras y clwydi o dan 13 oed, gan orffen y tymor ar frîg y tabl cenedlaethol.



Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRU

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



MEDI

- 6 Darlith Goffa Islwyn Ffowc Elis yng nghwmni Myrddin ap Dafydd yn Festri Brondeifi, Llanbed am 7.00yh.
- 8 Ffair Ram, Taith Dractorau ac Arddangosfa Hen Beiriannau yng Nghae Pentref Cwmann.
- 10 Merched y Wawr Llanbed a'r Cylch yn dechrau tymor newydd o ddigwyddiadau diddorol yn Festri Shiloh am 7.30. Croeso nol i'r aelodau presenol a chroeso i aelodau newydd ymuno â ni.
- 12 Cynhelir Cyfarfod Cwarterol Cyfundeb Ceredigion yng Nghapel-yr-Erw am 7.00y.h. Pregethir gan y Parchedig Ddr. Noel Anthony Davies.
- 14 Helfa Drysor Flynnyddol Eglwys Llanwenog. Cychwyn o faes parcio Llanybydder am 6.00y.h.
- 15 Bore Coffi yn Eglwys St Padrig rhwng 10.30 - 12.00 ac fe'i agorir gan Mrs Beti Jacob.
- 16 Cynhelir cwrdd pawb ynghyd Capel y Groes, am 3.00y.p. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaeth arbennig hwn.
- 22 Cyngerdd yng nghwmni Côr Bro Meirion yn Theatr Felinfach dan nawdd Eisteddfod Rhys Thomas James, Panyfedwen. Tocynnau o'r Theatr - 01570 470697.
- 23 Gymanfa Dathlu 75 mlynedd C.Ff.I. Llanllwni i'w gynnal yn Eglwys Llanllwni am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb. Arweinydd: Mrs Elonwy Davies.
- 24 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.
- 26 Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon, Llangybi am 2.00y.p. Pregethwraig wadd yw y Parch. Carys Ann. Croeso cynnes i bawb.
- 28 Bore Coffi yng Ngwesty'r Cross Hands, Llanybydder rhwng 10.00 - 12.30y.p. Elw tuag at Macmillan.
- 30 Oedfa gadael y Parch. Jill Tomos, yng Nghapel Aberduar am 2.00y.p.

HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 1 Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach am 7.00yh.
- 3 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 4 Gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Sant Luc, Llanllwni am 7.00y.h.
- 7 Cynhelir Diolchgarwch am y Cynhaef yn Eglwys St Padrig, Pencarreg a'r Pregethwr gwadd fydd yr Hybarch Dorrien Davies, Archddiacon Caerfyrddin.
- 9 Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel-yr-Erw, Cellan am 7.00.
- 10 Cwrdd Diolchgarwch Bethel am 7.00y.h. gyda'r Parch Dafydd Aeron yn gwasanaethu.
- 12, 19 a'r 20 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.
- 12 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Goffa Felinfach am 7.30yh.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant.
- 21 Cyngerdd Telyn a Gymanfa Ganu yng Nghapel Ty'nygwndwn, Felinfach am 6.00y.h gyda'r Telynor Llywelyn Ifan Jones.
- 23 Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llambled - Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi, Llanybydder am 8.00y.h. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams 01558 650292.
- 31 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.

TACHWEDD

- 1 a 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.

RHAGFYR

- 1 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni
- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.

2019

MAWRTH

- 2 Gorymdaith Gŵyl Ddewi yn Llambled.

Gohebiaeth

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhadledd flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru sydd i'w chynnal eleni ym Mhrifysgol Bangor ar 6 Hydref 2018.

Agorir y gynhadledd gan Rhun ap Iorwerth, a'r siaradwyr a'u testunau fydd Hywel Wyn Owen: 'Enwau lleoedd Cymaeg yn Sir Gaer'; James January-McCann: 'A list of historic place-names: challenges and problems'; Ieuan Wyn: 'Mae'r mynyddoedd yn siarad'; Dylan Foster-Evans: 'Y wasg ac enwau lleoedd cyn 1914'; a Shaun Evans: 'Estates and archives in Wales'.

Mae'r rhaglen i'w gweld ar ein tudalen facebook:

<https://www.facebook.com/CymdeithasEnwauLleoeddCymruWelshPlaceNameSociety> neu gellwch e-bostio enwaulleoedd@gmail.com i ofyn am gopi.

Cost y gynhadledd yw £25 (£20 i aelodau) yn cynnwys cinio, ond rhaid cofrestru erbyn 21 Medi.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Fangor!

Yn gywir,
Angharad Fychan,
Ysgrifennydd CELIC

Llanwnnen

Colled

Yn ystod yr Haf eleni collwyd Picton Jones, MBE, Fferm Drefach ac o 4 Teras Peterwell, Llambled. Roedd yn briod ag Helena ac yn llysdad a thad-cu addfwyn. Roedd Cymru gyfan yn adnabod Picton gan iddo fod yn llwyddiannus mewn sioeau ledled y wlad gyda'i ddofednod. Bu ei angladd yn gyhoeddus yng nghapel Soar, Llambled ac fe gydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu oll yn eu galar.

Priodas

Llongyfarchiadau i Steffan Lloyd-Hammond, Llain-delyn ar ei briodas â Tania Rees o Dalgarreg ganol mis Awst. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar John Jones (Jack), Cornicyll, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn dilyn eu profedigaeth ym mis Mehefin. Diolch hefyd i'r rhai fu'n ymweld â Jack tra bu yng Nghartref Anedd, Llanybydder.

Capel y Groes

Cynhelir cwrdd pawb ynghyd Capel y Groes, brynhawn Sul yr 16eg o Fedi am 3 o'r gloch y p'nawn. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaeth arbennig hwn.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensiô a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered Business

Peiriannydd Gwres Canolog Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com


Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymptau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cellan

Capel-Yr-Erw

Cynhelir Cyfarfod Cwarterol Cyfundeb Ceredigion yng Nghapel-Yr-Erw nos Fercher 12fed o Fedi am 7 o'r gloch. Pregethir gan y Parchedig Ddr. Noel Anthony Davies.

Hefyd cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel-Yr-Erw nos Fawrth 9fed o Hydref am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parchedig Rhodri Glyn Thomas. Croeso cynnes i bawb i'r ddau wasanaeth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a phob lwc i Hari Butten sydd wedi cael ei ddewis i chware yn nhîm dan 25 Cymru allan yn Iwerddon ar y 7fed a'r 8fed o fis Medi. Fe fydd yn chwarae yn erbyn Lloegr, Iwerddon a'r Alban yn ystod y penwythnos. Llongyfarchiadau hefyd iddo ar gael ei ddewis i chwarae yn y gêm brawf dan 18 mewn sgwad o chwech yn erbyn Lloegr yn hwyrach yn y mis. Pob lwc.

Alltyblaca

Cydymdeimlo

Yn ystod yr haf bu farw Michelle Lovell, Brynteifi, Alltyblaca, gwraig Karl a mam Jack, Kyle a Lake. Cynhaliwyd ei hangladd yn gyhoeddus yn Amlogsgfa Aberystwyth. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'r teulu cyfan yn eu colled erchyll.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jenkins, Llain Deri am basio Gradd 2 ar y piano gydag anrhydedd. Cafodd Elan farciau llawn yn y theori a'r gwaith technegol. Arbennig, da iawn ti.

Anrhydeddu



Yn y llun uchod, gwelir Garry Owen yn cyflwyno tystysgrif i anrhydeddu Sara Humphreys-Jones, Frongelli am roi gwasanaeth clodwiw i Eisteddfod Abergorlech dros y blynnyddoedd. Cafodd ei hanrhydeddu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddechrau mis Awst.

Pêl-droed Llambed



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 9 Llambed am ennill twrnament Caerfyrddin ym mis Gorffennaf.



Tîm pêl droed Dan 8 Llambed yn ennill twrnament Bow Street yn ystod yr haf.

Cyn - academi ac Academi Pêl droed Caerfyrddin

Pleser eleni eto gan glwb Llambed gyhoeddi fod y chwaraewyr canlynol wedi eu dewis i chwarae i Gaerfyrddin am y tymor sydd i ddod. Dymuniadau gorau iddynt.

Cyn-Academi Dan 7 - Carter Jones, Owain Dyer Morris

Cyn-Academi Dan 8 - Jac Jones, Ethan Rees

Cyn-Academi Dan 9 - Jake Lewis, Finley Wright, Dion Dyer Morris

Cyn-Academi Dan 10 - Harri Jones, Dion Deacon, Shane Evans, Louie Jones

Cyn-Academi Dan 11 - Tomos Lloyd Jones

Academi Dan 12 - Rhun Davies, Llŷr Davies



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 6 a Dan 7 Llambed ar gyrraedd y rownd derfynol yn nhwrnament Caerfyrddin nôl ym mis Gorffennaf.

Llun Dan 6 - Caerfyrddin ar y chwith a Llun Dan 7 - Caerfyrddin ar y dde.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Dan 6 Llambed am ennill twrnament Bow Street yn ddiweddar.



Kuba Michalski Tîm Dan 10 Llambed ar ennill chwaraewr y twrnament yn Bow Street.



Llongyfarchiadau mawr i Cafi Gregson a enillodd chwaraewraig orau dan 12 yn nhwrnament Llambed yn mis Mehefin.



Cynhaliodd aelodau CFfl Cwmann eu cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Castell Newydd Emlyn yn ddiweddar. Uchafbwynt y flwyddyn iddyn nhw oedd ennill cystadleuaeth y meim yn Eisteddfod Sir Gâr ac Eisteddfod Cymru.

Enillwyr Misol Clwb 125

Neuadd Sant-Iago Mis Gorffennaf

1. Rhidian Lloyd, Bryn-Y-Wawr, Pumsaint, 31. 2. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 36. 3. Lena Williams, 39 Heol-Hathren, Cwmann, 98. 4. Elizabeth Warmington, Falkland, Heol y Bryn, Llambled, 85. 5. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann, 52. Mary Jones, 41A Stryd Fawr, Llambled, 65. 7. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 99.

Enillwyr Misol Clwb 125 mis Awst

1. Christina & Shaun Davies, Pleasant-View, Llambled, 8. 2. Myra Jones, 14, Bryn-Yr-Eglwys, Llambled, 32. 3. Mrs. E. Lewis, Tanlan, Cwmann, 45. 4. Rhidian Lloyd, Penybont, Pumpsaint, 31. 5. Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104. 6. Sian Davies, Market Place, Llambled, 108. 7. Eirian Jones, Teify-Forge, Cwmann, 61.

Enillwyr Misol Clwb 225

Pwyllgor Pentref Cwmann

1. Timothy Evans, Efail-Fach, Llanfair, 3. 2. Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 55. 3. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 61. 4. Simon Jones, 18, Heol-Hathren, Cwmann, 106. 5. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 196. 6. Glenys Morgans, Rhydowen, Cwmann, 46. 7. Ray Harries, Castle-View, Llanllwni, 203.

Enillwyr Misol Clwb 225

Pwyllgor Pentref Cwmann Awst

1. Wendy Evans, Parcyrhos, Blaencwrt, Gorsgoch, 214. 2. Tegwen Morris, d/o Brynhathren, Cwmann, 53. 3. Ifana Lois Williams, Bronallt, Llangadog, 60. 4. Aneurin Jones, Hathren, Heol-y-Bont, Llambled, 124. 5. Ryan a Gabrielle, Delfan, Cwmann, 107. 6. Gwen Jones, Gellidewi-Uchaf, Parcyrhos, Cwmann, 89. 7. Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 196.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad

dwysaf â Gwen Jones, Gellidewi Uchaf ar farwolaeth ei phriod Eiddig, brawd yng nghyfraith Gwynfor ac ewythr hoffus Dylan, Dafydd a'u teuluoedd a'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Yn yr un modd estynnwn gydymdeimlad â Kay Douglas, Cartref Allt y Mynydd, y plant a'u teuluoedd ar farwolaeth y diweddar Jim Douglas, Talfedw gynt.

Llyfrgell Symudol

Bydd Llyfrgell Symudol Sir Gâr yn ymweld â Chwmann bob wythnos gan aros ym maes parcio'r Ganolfan rhwng 09.45-11.45 ar fore Mawrth. Cofiwch ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Bethel Parc-y-rhos

Bwriedir ail sefydlu'r Ysgol Sul, diolch i Mari a Cari am wirfoddoli. Dyma gyfle i blant rhwng 5 ac 11 oed gwrdd ar fore Sul yn y pentref mewn awyrgylch anffurfiol i ganu a pherfformio. Os ydych yn adnabod unrhyw blant lleol a fyddai â diddordeb, cysylltwch ag Ann Herbert neu Elin Jones, Ysgrifenyddion Bethel gydag enwau.

Bydd y Gymdeithas Ddiwylliadol yn ail ddechrau nos Lun 17eg o Fedi, ac yn mynd ar daith leol. Pawb i gwrdd am 6.30 o'r gloch. Gellir cael mwy o fanylion gan Alun Jones, Ysgrifennydd y Gymdeithas. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Bethel nos Fercher y 10fed o Hydref am 7 o'r gloch gyda'r Parch Dafydd Aeron yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ddydd Sadwrn yr 8fed o Fedi ar gaeau'r pentref. Y llywydd eleni yw Mrs Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen. Derbynnir defaid a nwyddau rhwng 10.00 a 11.30yb er mwyn dechrau beirniadu am 12.00yp. Bydd Taith Dractorau yn gadael am 11.00yb ac arddangosfa hen beiriannau am 12.00yp.

Mae'r cystadlu yn gyfyngedig



Yng nghystadleuaeth 'Gwisgo'r Arweinydd' y CFfl enillwyd y cwpan gan Glwb Cwmann - Undeg Jones, Elen Powell, arweinydd, ac Elin Williams.

i drigolion Plwyf Pencarreg ac aelodau mudiadau lleol, ond estynnir croeso cynnes i bawb ymweld â'r sioe a mwynhau diwrnod cymdeithasol hyfryd. Ymhlith yr atyniadau bydd adar ysglafaethus, crefftau, nifer o arddangosfeydd a mân sioeau. Bydd aelodau Sefydliad y Merched Coedmor yn arlwyo a bydd hufen iâ ar werth yn ogystal â bar. Cysylltwch ag un o'r ysgrifenyddion am fwy o wybodaeth: Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511. Gellir lawrlwytho rhaglen Ffair Ram oddi ar wefan www.ffairram.btck.co.uk

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Bethan a Gwyn Lewis, 18 Heol Hathren ar ddyfodiad eu hwyres fach, Catrin Mair, merch fach i Rhian a Simon yn Llandysul.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Terry a Iona, Murmur Teifi, Cae Ram ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Awst. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

Ysbyty

Dymuniadau gorau i'r canlynol sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod yr haf: Eirlys Jones, Balfor; Wynford Edwards, Ddeunant; Wil Williams, 3 Cwrt Deri. Hefyd derbyniodd Dannie Davies, Brynteify driniaeth yn yr ysbyty. Rydym yn falch gweld Elan Jones, Araul yn well ar ôl treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty ddechrau'r haf. Gwellhad buan i bawb.

Symud Aelwyd

Ar ddiwedd mis Awst symudodd Terry, Sian, Tomos, Beca a Mali, Awel-y-grug lawr i ardal Peniel ger Caerfyrddin. Pob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd.

Diolch

Dymuna Megan Jenkins, Cwmcanol ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar farwolaeth ei brawd,

Richie, yn ddiweddar.

Eglwys Sant Iago

Aeth aelodau a ffrindiau Eglwys Sant Iago ar eu pererindod flynyddol ddydd Sul, Awst 12fed.

Ar ôl taith bleserus lawr i Sir Benfro ymgasglodd pawb yng ngwesty 'Y Stackpole' i gymdeithasu a mwynhau cinio blasus iawn cyn mynd ymlaen i ymweld ag eglwys hynafol Sant Iago gyda Sant Elidyr yn Stackpole.

Mae'r eglwys yn dyddio yn ôl i 1100 ac mae hanes diddorol amdani. Cawsom wasanaeth tawel a bendithiol ynghyd ag hanes yr eglwys gan ein ficer yr Hybarch Dr William Strange cyn cael cyfle i fynd o amgylch.

Mae'r fynwent yn ôl pob tebyg yn nefoedd i naturiaethwyr am fod dros 160 o wahanol blanhigion yn tyfu yno, mwy yn ôl y sôn nag unrhyw fynwent arall yn y wlad.

Ymlaen wedyn i ymweld â Chastell Cariw a'r groes unigryw y tu allan i'r castell yn un o'r goreuon yng Nghymru, yn dyddio o tua'r flwyddyn 1000AD ac wedi ei cherfio o gerrig mynyddoedd y Preseli.

Roedd y daith yn bleserus a diddorol iawn. Diolchodd y ficer i bawb am bob cydweithrediad yn trefnu'r bererindod ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at llwyddiant y diwrnod, yn cynnwys gyrrwr y bws am ein cludo mor ofalus.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Gôr Llefaru Sarn Helen a Pharti Llefaru Man a Man o dan hyfforddiant Elin Williams, Y Garn ar ddod i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ddechrau mis Awst.

Aelwyd Newydd

Croeso cynnes i Emyr ac Eirian Jones sydd wedi ymgartrefu yn Awel y Grug, 1 Cwrt Deri yn ddiweddar.

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 14 Mai 2018 am 8.30 yh. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Plismona - Croesawyd Shanice Thomas i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth ar blismona yn gyffredinol. **Trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth** - Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn ogystal, i'r Clerc hefyd am ei gwaith. Diolchodd y Cadeirydd newydd i'w ragflaenydd am ei waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac am ei waith o fewn y gymuned dros nifer o flynyddoedd. Etholwyd swyddogion eraill i'w swyddi.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Byddai'r toiledau ar y cae chwarae tan ddiwedd Medi 2018. Penderfynwyd y byddai bocsg awgrymiadau yn cael ei osod ar y cae chwarae yn ystod y diwrnod hwyl sef 07 Gorffennaf 2018 i ofyn am syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â sut i ddatblygu y cae chwarae. Byddai'r Cyngor Bro yn ddiolchgar iawn am unrhyw syniadau ac awgrymiadau a hefyd awgrym am ddyddiad i gynnal cyfarfod ar y cae chwarae. **Llwybrau Cyhoeddus** - Derbyniwyd gwybodaeth y byddai angen i'r Cynghorau Bro gynnal a chadw rhai o lwybrau cyhoeddus y plwyf yn y dyfodol. Byddai'r Cynghorwyr yn penderfynu pa lwybrau i'w cynnal. **Ceisiadau** - Penderfynwyd cefnogi Ysgol Gynradd Llanllwni (Diwrnod o Hwyl). Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cyngor Cymuned Llanybydder

Mae Cyngor Cymuned Llanybydder am rybuddio y gallai moduron fod yn teithio'n gyflymach gan fod Pont Gwrdd Bach wedi cael ei lledu.

Penderfynwyd cefnogi Cymdeithas Henoed, Llanybydder er mwyn iddynt barhau â'r gweithgarwch. Penderfynwyd cefnogi LOAF i gynorthwyo i drefnu'r Sioe Lysiau yn Llanybydder. Cytunwyd prynu cyfrifiadur newydd ar gyfer Clerc. Mae'r Cyngor yn holi am brisau er mwyn gosod ceffyl pren newydd yng ngardd y Mileniwm. Mae'r Cyngor yn gobeithio prynu lamp newydd ger Dunbia. Cefnogwyd Miss Elen Hughes er mwyn iddi dderbyn hyfforddiant yn Llundain.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae etholwyr ar draws Ceredigion a thu hwnt wedi mynegi barn am ddyfodol gwasanaethau Bwrdd Iechyd Hywel Dda wrth i gyfnod ymgynghori ddod i ben, ac roeddwn yn falch o ddanfôn llythyr ar y cyd gyda'n AS, Ben Lake, yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd i'n harolwg. Cawsom oddeutu 90 o ymatebion, gyda llawer o syniadau gan etholwyr yn ne'r sir am yr hyn y dylai'r GIG ei ddarparu. Ymysg y rhain roedd yna alwad gref am welyau GIG yn Aberteifi ac am gadw gwasanaethau ysbty allweddol o fewn cyrraedd.

Mae cymunedau Ceredigion yn nyffryn Teifi yn cael eu gwasanaethu gan Glangwili i'r dwyrain a Llwynhelyg tua'r gorllewin. Byddai lleoliad rhwng Arberth a San Clêr yn cynyddu'n sylweddol amseroedd mynediad ar gyfer ymyriad argyfwng i bobl sy'n byw rhwng Llambod ac Aberteifi. Mae'n rhaid cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud unrhyw benderfyniad.

Hefyd mae yna newidiadau mawr yn y sector amaethyddol gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi eu bod am ddiwedd taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar ôl i Gymru adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r polisi newydd hwn yn golygu'r newid mwyaf mewn cenhedlaeth i'n cymuned amaethyddol. Ers cychwyn CAP nid yw ffermwyr Cymru wedi bod heb daliadau uniongyrchol.

Felly, dros yr haf, hoffwn annog holl ffermwyr Ceredigion i gymryd rhan mewn ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r newid hwn, 'Cymorth i ffermwyr Cymru ar ôl Brexit?' Gellir dod o hyd iddo ar wefan ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, ac mae'n holl bwysig bod llais ffermwyr Cymru yn cael ei glywed. Cysylltwch â'm swyddfa os cewch drafferth i ddod o hyd iddo.

Ar y cyd â swyddfa Ben Lake, rydw i wrthi'n trefnu cyfarfod cyhoeddus gyda CFFI Ceredigion i drafod dyfodol Ffermio yng Ngheredigion ac yng Nghymru. Fe fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal nos Iau 27 Medi am 7.30 yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Mae croeso i ffermwyr o bob cwr o Geredigion ddod er mwyn trafod newidiadau i daliadau, yn ogystal â'r heriau sydd i'r sector dros y blynyddoedd nesaf.

Llongyfarchiadau i holl enillwyr Ceredigion yn y Brifwyl ym Mae Caerdydd eleni, ac wrth gwrs, yn Eisteddfod y Ffermwyr – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.



Roeddwn yn falch iawn o gael fy anrhydeddu i'r Orsedd eleni, gyda'r enw 'Elin Ceredigion'.

Cafwyd newyddion da yn ddiweddar bod yr Eisteddfod Genedlaethol, a fydd yn dod i Geredigion yn 2020, wedi dewis Tregaron fel lleoliad. Bydd hyn yn gyfnod cyffrous i bawb yn yr ardal.

Cerddoriaeth Llanbedr Pont Steffan Rhys Watkins a'r Nidum Ensemble

Dydd Sul 30 Medi 2018 7.30pm Neuadd y Celfyddydau
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan
SA48 7ED

Mae grŵp o bum prifathro o Gerddorfa Symffoni Llundain a Cherddorfa Genedlaethol BBC Cymru yn dod â rhaglen o bedwarawdau a phumawdau i ni.

Tocynnau sengl: £12; consesiynau £10. Dau blentyn yn rhad ac am ddim gydag oedolyn sy'n talu. Aelodaeth ar gyfer y tymor o chwe chyngherdd: £50; consesiynau £40.

Tocynnau ac aelodaeth wrth y drws neu ar-lein.
Am fanylion gweler: www.lampetermusicclub.co.uk

ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Drefach a Llanwenog



Bu Cyngor Ysgol Dyffryn Cledlyn yn codi arian ar gyfer Clefyd y Siwgrw ddiwedd tymor a hyfryd oedd croesawu Eirian atom er mwyn cyflwyno siec am £242.60 ar gyfer gwaith yr elusen. Bu hyn yn gyfle i ni ddysgu ychydig am y maes. Felly, diolch i'r Cyngor Ysgol a diolch i chi gyd.



Diolch i'r Llysgenhaden Efydd, Katy a Meredydd, am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a braf oedd eu gweld yn y seremoni wobrwyo ddiwedd y tymor. Hyfryd oedd eu gweld nhw'n ffyddlon yn ystod y flwyddyn ac yn cynnal "Ffit Mewn 5" ar ddiwedd y tymor hefyd. Campus!



Ar ddiwedd y tymor buom yn cyflwyno tariannau ac yn ennill eleni roedd: Elen am ennill Cymwynaswr y Flwyddyn - tarian yn rhoddedig gan Gorff Llywodraethol Cwrtnwydd.

Elen am ennill Perfformwraig y Flwyddyn - tarian yn rhoddedig gan Gorff Llywodraethol Llanwnnen.

Meredydd yn ennill am waith Mathemateg a Gwyddonol - tarian yn rhoddedig gan Gorff Llywodraethol Llanwenog.

Llongyfarchiadau mawr i chi.

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Roderick Dyffryn Cledlyn a Mr Roderick Bro Pedr am gyflawni her o 200 milltir ar feic - a hynny i ddynodi eu pen-blwydd yn hanner cant. Dymuniadau gorau i'r ddau!

Braf oedd gweld nifer o ddisgyblion blwyddyn 6 yn canu yng nghôr Blwyddyn 6 y Proms eleni ac Elen Morgan yn canu unawd fel rhan o un o'r perfformiadau. Da iawn, Clodagh, hefyd am berfformio gyda'r Gerddorfa.

Hyfryd oedd gweld Côr yr Ysgol yn ymddangos i ganu "Cwm Alltcaf" yn y proms hefyd, a hynny cyn i ni lwyddo mynd am daith i weld y llecyn i ddiolch i'r disgyblion am eu holl ymroddiad a gwaith caled yn ystod y misoedd diwethaf. Prynawn godidog!

Dymuniadau gorau i'r un ar ddeg disgybl a fydd yn dechrau yn Ysgol Bro Pedr a Bro Teifi ym mis Medi. Clodagh, Elen, Ffion, Harri, Katy, Luke, Meredydd, Sean, Teleri a Hannah. Diolch o waelod calon i chi am eich ymroddiad a'ch teyrngarwch i Ysgol Dyffryn Cledlyn a diolch am wneud ein blwyddyn gyntaf yn un gofiadwy o dan eich arweiniad. Buon ni'n ffodus iawn i gael eich ymroddiad yn ystod y flwyddyn a'r blynyddoedd cynt.

Diolch o waelod calon i chi hefyd am wasanaeth ffarwelio hyfryd gan rannu eich atgofion gyda ni. Braf oedd gweld lluniau o'r disgyblion yn ifanc yn y blynyddoedd a fu.

Tlws Pat Neill 2018 - Cystadleuaeth Barddas

Danfoniwyd cerddi i'r gystadleuaeth eleni. Mae'n bleser cyhoeddi mai Ysgol Dyffryn Cledlyn oedd â'r nifer fwyaf o gerddi yn y Dosbarth Cyntaf, a bod Meredydd Davies (o dan y ffugenw Cardi Coch) wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a Meredydd wrth gwrs.

Braf oedd medru cadarnhau ar ddiwedd y tymor ein bod wedi ennill statws Siarter Iaith am nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn - a diolch i'r disgyblion am eu harweiniad a'u brwdfrydedd.

Cafwyd diwrnodau hyfryd ar deithiau diwedd tymor wrth i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 fynd i Oakwood am y dydd a'r Cyfnod Sylfaen i Fferm Ffoli am y dydd. Bu'r disgyblion Meithrin yn Little Mzz hefyd! Yng nghanol y gwres poeth llwyddodd pawb fwynhau diwrnod da o weithgarwch a phawb wedi blino a mwynhau mas draw - ar ôl blwyddyn brysur a chaled!

Cafodd pawb fore o syndod pan ddaeth Elin o Cyw atom i ganu a dawnio. Roedd pawb wrth eu bodd. Diolch Elin!

Sioe Cwmsychbant, Gorsgoch ac Eisteddfod Llambod

Diolch i'r holl ddisgyblion a fu'n brysur yn ystod y gwyliau yn cystadlu a chefnogi gweithgarwch lleol. Bu'r disgyblion yn gweithio'n yr ysgol ar lawysgrifen a pheintio a nifer wedi bod yn coginio a chreu crefft ac yn cystadlu gydag anifeiliaid yn y sioeau. Da iawn, chi, a diolch i'r trefnwyr am gynnal y gweithgareddau. Enillodd Ysgol Dyffryn Cledlyn y darian yn Sioe Gorsgoch a Cffil Llanwenog, a nifer o unigolion wedi ennill gwobrau personol. Gwych a dalier ati!

Llongyfarchiadau hefyd i'r unigolion a fu'n cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod. Bendigedig!

Rhodddwn groeso i Shan Cwc nôl atom ar ôl iddi gwmpo yn yr ysgol a dymunwn yn dda iddi wrth iddi ail ymuno â ni yn yr ysgol.

Ar drothwy blwyddyn academiaidd newydd hoffwn ddiolch i'r rhieni, staff, cyfeillion yn y gymdeithas a'r disgyblion, wrth gwrs, am bob cefnogaeth i'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at flwyddyn brysur arall.

Y Gymdeithas Hŷn

Bu'r aelodau ar ddau drip yn ystod y ddeufis diwethaf. Trefnwyd trip mis Gorffennaf gan Beti ac Owen Davies a theithiwyd i Fachynlleth ar gyfer ein arhosiad cyntaf. Mae'n ddiwrnod marchnad stryd yno bob dydd Mercher gyda digon o bethau i ddal y llygad. Wedi cyfle am luniaeth ysgafn, troi i gyfeiriad y brynau wedyn a'r bws yn dringo'n gyflym ac yn sefyll wrth gofeb y darlledwr a'r hanesydd, Wynford Vaughan Thomas. Roedd yr ardal yma'n hoff iawn ganddo a chodwyd y gofeb iddo gan Gymdeithas Gwarchod Cymru Wledig.

Awd ymlaen wedyn am Ddylife gan weld olion y gweithfeydd mwyn yn yr ardal ac effaith y rhewlifoedd yn ystod Oes yr Ia ar y tir. Cafwyd hanes yr ardal hefyd gan Ifan Jones, Caeglas, yn sôn am fro ei febyd ac yn cyfeirio at nifer o ffermydd yr oedd yn adnabyddus â hwy.

Aros wedyn ger hen waith mwyn Bryn Tail a chael cyfle i gerdded o gwmpas yr hen adeiladau a'r ardal yma ar Ffordd Owain Glyn Dŵr o Fachynlleth i'r Trallwng. Roedd pawb yn barod am 'baned yn Llanidloes cyn cychwyn eto ond roedd hi'n bryd cyfeirio tuag adre erbyn hyn.

Arhoswyd i ymweld ag Eglwys Ysbyty Cynfyn ger Ponterwyd. Mae hon yn eglwys hynafol iawn lle byddai pererinion ar eu ffordd i Ystrad Fflur yn cael gorffwys a gŵal gan Farchogion Ysbyty Sant Ioan. Diddorol oedd gweld maentioli'r meini yng nghlawdd yr hen fynwent. Yma mae bedd y pedwarawd (quads) cyntaf a gofrestrwyd, ym 1856, a'r pedwar yn marw o glefyd y typhoid,

Drefach a Llanwenog

ac eraill o'r teulu yn dal yr haint hefyd ac yn marw.

Cafwyd pryd ardderchog yng Ngwesty'r Hafod ym Mhontarfynach, ac wedi bwyta, diolchodd Dilwen George, y Cadeirydd i Beti ac Owen am daith arbennig o ddiddorol ac i Ifan am ei hanesion yntau a oedd yn ychwanegu at y mwyniant.

Troi i gyfeiriad glannau'r môr a wnaeth trip mis Awst gan aros gyntaf yn Nhalacharn a chael cawod drom o law wrth gyrraedd. Ond buan y daeth yr haul i gymryd ei le a bu'n braf drwy'r dydd wedyn. O Dalacharn, symudom ymlaen ychydig i Bentywyn gan ymweld â'r Amgueddfa Gyflymder yno a gweld Babs, car Parry Thomas, a dorrodd y record am gyflymder teithio ar dir ym 1945. Yn anffodus, wrth geisio amddiffyn ei record y flwyddyn ganlynol, bu farw Parry Thomas a chladdwyd y car yn y tywod ym Mhentywyn. Bu yno am dros ddeugain mlynedd ond erbyn hyn mae wedi ei adnewyddu ac mae'n dod i Bentywyn am ddau fis bob blwyddyn i adrodd ei hanes.

Buom yn teithio ar hyd yr arfordir drwy Amroth a Wiseman's Bridge wedyn at Saundersfoot a chael amser i hamddena a chael clonc dros hufen ia, cyn cychwyn am adre a galw yng Ngwesty Nantyffin am swper blasus ar y ffordd.

Sefydliad y Merched.

Mae aelodau Sefydliad y Merched wedi bod yn brysur dros yr Haf.

Cyn y gwyliau cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni'r Blismones Sharon Gibby sydd yng ngofal cŵn yr Heddlu. Daeth hi â thri chi yno, gan ddangos eu sgiliau yn darganfod nwyddau ffrwydrol.

Nes ymlaen yn y mis aeth rhai o'r aelodau i gerdded o Bont "Wiseman" yn Sir Benfro i Saundersfoot a chafwyd amser pleserus ger yr arfordir.

Cafwyd dau ymweliad hefyd ag ardal Tregaron, un i Ardd Agored Shelagh ac un arall i ymweld â fferm. Diddorol oedd gweld cyfoeth o lysiau yn ogystal â gwledd o flodau lliwgar.

Noson arall bu rhyw ugain o'r aelodau yn mwynhau pryd o fwyd blasus yn y "Cross Hands" yn Llanybydder.

Diddorol yw nodi bod rhai o'r aelodau wedi dangos diddordeb mewn prosiect gyda'r Dreftadaeth Naturiol, ac maent wedi penderfynu mesur y coed yw a'r goeden cas gan fwnci ym mynwent yr Eglwys.

Yn y cyfarfod diwethaf bu Justine Burgess yn dangos sut i blethu gwiall. Roedd pawb wedi cymryd rhan a gwneud naill ai siap calon neu declyn i ddal garlleg. Er fod y cyfan yn edrych yn gymleth iawn ar y dechrau roedd pawb yn bles â'u gwaith erbyn diwedd y noson.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 6ed o Fedi yn Eglwys Llanwenog pan fydd Donna, un o'r aelodau yn siarad am gadw gwenyn.

Mae yna groeso cynnes i aelodau newydd neu ymwelwyr daro heibio i gael profi'r gweithgareddau pan estynnir croeso cynnes i bawb.

Capeli Brynteg a Bethel Drefach

Eleni eto, ymunodd aelodau'r ddau gapel ym Mhererindod flynyddol capeli'r Ofalaeth. Capel Rhydwylym oedd y man ymwelwyd â hi'r tro yma, - man cychwyn enwad y Bedyddwyr yng Nghorllewin Cymru. Croesawyd pawb yn gynnes gan aelodau Rhydwylym, a chynhaliwyd gwasanaeth bendithiol yno. Cymerwyd at y rhannau arweiniol, a chyflwynwyd eitemau gan aelodau'r Ofalaeth, yn ogytal â phlethu hanes sefydlu'r capel yn Rhydwylym.

Wedi'r oedfa, aed ymlaen i Hwlffordd am luniaeth ysgafn, cyn mynd i Dŷddewi am ychydig amser. Troi am adre, a chael pryd o fwyd ardderchog yng Ngwesty Nantyffin, Clunderwen. Diolch yn fawr i Haulwen Lewis, Pencader, am drefnu'r gwasanaeth a threfniant y diwrnod ar ei hyd.

Roedd pawb yn flin nad oedd y gweinidog, Y Parchedig Rheinallt Davies yn medru bod gyda ni oherwydd salwch, a dymunir gwellhad buan iddo.

Trist yw cofnodi colli un o aelodau Capel Brynteg, sef y diweddar Mrs Annie Bowen, gynt o Arosfa, Drefach, ond a fu'n preswyllo yng nghartref gofal Hafan Deg, Llambled ers ychydig flynyddoedd. Bu Annie yn aelod ffyddlon ym Mrynteg, ac yn weithgar ym mhob peth oedd yn gysylltiedig â'r Capel. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at Eiddwen ac Eirlys a'u teuluoedd yng Nghyffiniau Caerdydd.

Ar y Sadwrn olaf ym mis Awst, priodwyd Bleddyn (Esgereinon gynt) ac Emma o Bencader, yng Nghapel Brynteg. Roedd hwn yn ddathliad priodasol arbennig, gan bod eu ddau blentyn bach wedi eu bedyddio yn yr un gwasanaeth. Pob bendith a hapusrwydd iddynt fel teulu.

Cydymdeimlo

Canol mis Gorffennaf bu farw Mrs Annie Bowen, gynt o Arosfa, Drefach yn Ysbyty Glangwili, mam Eiddwen ac Eirlys a mam-gu a hen fam-gu hoffus. Bu'r angladd yn gyhoeddus yng Nghapel Brynteg.

Ar ddiwedd mis Awst fe gollodd Cartref Maes y Felin un o'i drigolion anwylaf a oedd yn adnabyddus i ardal eang iawn, sef Hefin Lloyd neu Hefin Pwll y Bryn fel yr oedd yn cael ei adnabod. Cydymdeimlir gyda'i chwaer,

Ogwen a'r teulu oll yn Llandysul a'r cyffuniau.

Wyres fach newydd

Yn ystod mis Awst cafodd Sian Jones, Awelon wyres fach newydd pan anwyd i'w merch Ffion a'i gŵr James yng Nghaerdydd ferch fach – Rhianedd Siân Dafis-Clode.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Caryl ac Andrew, Glynfaes ar enedigaeth bachgen bach ganol mis Awst, Tomi-Wyn. Brawd bach i Hari-Jac.

Eglwys Santes Gwenog Llanwenog.



Ar brynhawn crasboeth o Orffennaf cafwyd ymweliad gan Dywysog Cymru i eglwys hynafol Llanwenog. Daeth i weld y cerfiadau pren gan Joseph Reubens o wlad Belg a fu'n gweithio i deulu Plas y Dolau.

Croesawyd y Tywysog Charles gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn a chafwyd datganiad swynol gan y Côr. Ar ôl sgwrs dros de Cymreig a baratowyd gan aelodau'r Eglwys, aeth ymlaen i gyfarfod ag aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol a gweld arddangosfa o'u gwaith.

Wedyn cafodd gyfle i weld rhai o ddefaid Llanwenog - pwy a ŵyr, efallai bydd yn penderfynu eu cadw yn ei gartref yn Llwyn y Wermwd rhyw ddydd. Cafodd anrheg o fêl Cymreig lleol hefyd i'w atgoffa am ei amser yn yr ardal.

Dymunwn bob bendith i'r Canon Suzy Bale yn y dyfodol gan ei bod bellach wedi symud i wasanaethu yn eglwysi Rhydaman. Serch hynny, mae gwasanaeth yn yr Eglwys bob Dydd Sul yn ôl y patrwm arferol.

Cofiwch am yr Helfa Drysor flynyddol nos Wener Medi 14 am 6 o'gloch i ddechrau o Faes Parcio Llanybydder. Dewch i ddangos eich cefnogaeth.

Cydnabyddiaeth


Dymuna Eiddwen ac Eirlys a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar ôl marwolaeth eu mam, mam-yng-nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu annwyl, sef Annie Bowen gynt o Arosfa, Drefach. Diolch hefyd i Tom a Haulwen Lewis, Aneidle, Pencader am drefnu'r angladd mewn ffordd mor deimladwy, ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at gartref Hafan Deg a Pharafeddygon Llambled.

Aelwyd Llambled



Aelwyd Llambled a gafodd yr 2il wobr yn y Parti Llefaru yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen dros Wyl y Banc.

Llanbedr Pont Steffan



Pencampwr y Dorset heb gyrn – dafad hŷn yn Sioe Llanbed oedd, eiddo Berwyn Hughes, Llanbed yn cael ei harwain gan Tomi Hughes 5 oed



Llywydd y Sioe, Clive Mills, yn cyflwyno cwpan i Bencampwr Rhyng-frid Adran y Defaid i hwrdd Texel 3 oed, yn cael ei ddangos gan Dylan Jones gyda chymorth Elliw a Cian, Llanllwni.



Lowri Pugh-Davies, Llanybi yn ennill Adran y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn Sioe Llanbed yn ddiweddar. Yn y llun, gwelir hi'n derbyn y tlws oddiwrth Llywydd y Sioe, Mrs Liz Mills.

Diolch



Yn dilyn Parti Pensiwn Brynmor James a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Llanbed yn ddiweddar, casglwyd arian yn lle anrhegion at Ward Meurig, Ysbyty Bronglais. Trwy haelioni teulu a ffrindiau derbyniwyd £900 i'r achos teilwng yma.

Grŵp Trafod Amaeth Llanbed



Codwyd swm o £750 mewn cinio i ddathlu pen-blwydd Grŵp Trafod Amaeth Llanbed yn 40 oed. Rhoddodd cadeirydd eleni, Aneurin Davies, a'i gyd-swyddogion y swm cyfan at yr Uned Cemothepari newydd yn Ysbyty Bronglais. Derbyniwyd y sic gan Carole Price ac Elin Miles ar ran Ar Dramp dros Driniaeth a chaiff yr arian ei ychwanegu at y rhoddion eraill sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Uned.

Carnifal Llanbed



Cynhaliwyd Carnifal Llanbed ar Awst 4ydd. Enillydd yr arddangosfa orau – Ogof Santa, oedd staff Hafan Deg. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Sioe Llanbed

O 2019 ymlaen bydd Sioe Llanbed yn cael ei chynnal y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf.

Daethwyd i'r penfeyniad hyn yn bennaf oherwydd rheolau a chyfyngiadau DEFRA, gan fod hyn wedi effeithio tipyn ar Adranau'r Defaid a'r Gwartheg eleni.

Gan fod yn rhaid i ni newid y dyddiad roedd y teimlad yn gryf i'w chynnal ar ddydd Sadwrn, ac mi benderfynwyd ar y dyddiad yma ar ôl edrych ar ddyddiadau Sioeau eraill yn y cyffiniau.

Cynhelir Sioe 2019 felly ddydd Sadwrn, y 6ed o Orffennaf.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Llanbedr Pont Steffan

Priodas Arian

Dathlodd Hedydd a Roger Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog eu Priodas Arian ganol mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau i chi.

Merched y Wawr Llanbed a'r Cylch

Bydd Merched y Wawr Llanbed a'r Cylch yn dechrau tymor newydd o ddigwyddiadau diddorol yn Festri Shiloh ar Fedi 10fed am 7.30. Croeso nol i'r aelodau presennol a chroeso i aelodau newydd ymuno â ni.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Ken Jones, Hendy, Station Terrace ar golli ei briod tyner, Ann, chwaer, modryb a hen-fodryb annwyl iawn. Colodd Ann y frwydr ddiwedd mis Gorffennaf a hynny lawr gyda'i chwaer Mary ym Meulah ger Castell Newydd Emlyn lle roedd wedi treulio 3 mis olaf ei bywyd. Lawr yng Nghapel Beulah oedd yr angladd ac yno rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn y fynwent gerllaw. Cofiw'n am weddill y teulu yn eu galar.

Bedyddwyr

Aeth llond bws o aelodau eglwysi Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi ar drip ar ddiwrnod hyfryd o haf.

Yn gyntaf ymwelwyd â Chanolfan Aur Rhiannon yn Nghregaron. Yn absenoldeb Rhiannon fe'n croesawyd yn gynnes gan ei mab Gwern. Diddorol iawn oedd gwrando arno yn sôn am hanes y busnes teuluol sy'n creu gemwaith aur unigryw a sydd erbyn hyn yn cael ei allforio i nifer o wledydd. Ers sawl blwyddyn bellach Rhiannon sy'n creu coron Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan a chafwyd y fraint i ddal darnau ohoni yn ein dwylo gan ei bod yn y broses o gael ei llunio pan oedden ni yno. Erbyn hyn mae'r goron hardd wedi ei hennill gan Heiddwen o Bencarreg.

Profiad arbennig oedd cerdded o gwmpas y ganolfan yn edmygu'r gwaith celfydd sydd ar gael yno.

Wedyn bu pawb yn mwynhau paned yn y caffi a chael cipolwg ar arddangosfa o waith yr arlunydd Wynne Melville Jones yn y galeri.

Mynd ar ein taith wedyn tuag at gapel Soar y Mynydd a chael picnic ar y ffordd a'r cyfle i edmygu'r golygfeydd godidog o'n cwmpas. Braf oedd gweld y capel bach yn llawn gyda nifer o aelodau ychwanegol o'r cylch wedi ymuno â ni erbyn hyn. Cafwyd oedfa fendithiol yng ngofal yr Athro Densil Morgan gyda Delyth Morgans Phillips yn darllen rhan o'r Gair. Profiad gwefreiddiol oedd cael cyd-addoli mewn capel bach mor

hanesyddol. Diolch am oedfa i'w chofio.

Wedyn ymlaen â ni i Ganolfan Treftadaeth a Chelfyddydau Llanwrtyd i werthfawrogi'r arddangosfeydd amrywiol sydd yno yn olrhain hanes cyfnod y ffynhonnau o 1867 i 1956, y newidiadau ym myd amaeth ar hyd y blynyddoedd a llawer mwy.

Daeth ein diwrnod i ben gyda swper yng ngwesty'r Castell yn Llanymddyfri. Cyn troi tuag adref diolchodd Janet i'r trefnwyr sef ein Gweinidog y Parch Jill Tomos, Dewi Davies, Ann Morgan ac unrhyw un arall oedd wedi cynorthwyo. Roedd pawb yn gytun ein bod wedi cael diwrnod wrth ein bodd yng nghwmni'n gilydd.

Diolch

Dymuna Janet, 1 Maesyllan ddiolch yn fawr iawn am yr holl gonsyrn a ddangoswyd tuag ati trwy gyfrwng llun o alwadau ffôn, negeseuon test ac e-byst yn dilyn ei harhosiad annisgwyl yn Ysbyty'r Heath yn Nghaerdydd ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod.

Dymuna Derek hefyd ddiolch yn gynnes i bawb am yr holl negeseuon yn dilyn ei ymweliad yntau ag Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr. Diolch o galon i chi gyd.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod misoedd yr haf.

Ysgol Sul Noddfa

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau yn dilyn gwyliau'r haf ar os Wener 7 Medi o 4 hyd 5 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd o 4 oed i fyny. Edrychwn ymlaen at gyd weithio hapus unwaith eto.

Mae nifer o'r bobl ifanc wedi bod yn llwyddiannus iawn yn genedlaethol mewn gwahanol feysydd. Mae llwyddiant rhyfeddol Cerys Angharad yn parhau. Mae wedi derbyn Ysgoloriaeth Robert Lewis sydd yn ei galluogi i fynychu gweithdai sgiliau gan gerddorion proffesiynol a'r cyfle i fynychu rihyrsals gyda cherddorfeidd a phartneriaid cerddorol eraill. Bydd hefyd yn cael cyfle arbennig i gymryd rhan gyda Cherddorfa Symffoni BBC Llundain yn stiwdio Maida Vale ym mis Rhagfyr. Yn ogystal â hyn bydd yn derbyn cymorth ariannol.

Hefyd cyflawnodd Cerys gamp ryfeddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni trwy ennill yr unawd telyn dan 15 a hithau ond yn 10 oed.

Mae Beca ac Osian Roberts wedi dod i'r brig mewn cystadlaethau athletau a'u cefnder Sion Evans mewn rasys motor beic.



Lawnsio llyfr

Llongyfarchiadau i'r Athro D. Densil Morgan, Y Gilfach ar gyhoeddi ei lyfr diweddaraf, Theologia Cambrensis sef Hanes Crefydd a Diwinyddiaeth Brotestannaidd yng Nghymru o 1558-1760. Lawnsiwyd y llyfr ym Mhabell Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd a chymerwyd rhan gan y Dr. Robert Pope, yr Athro Ceri Davies a'r Parch. Euros Jones.

Llongyfarchiadau i bob un ohonynt a phob lwc i'r dyfodol.

Côr Plant Ysgolion Caerdydd

Braf oedd gweld Mair Long gynt o 1 Maesyllan Llambod yn arwain Côr Plant Ysgolion Cynradd Caerdydd yn seremoni wobrwyo enillydd gwobr goffa Daniel Owen a seremoni'r Fedal Ddrama ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Roedd y Côr yn cynnwys 80 o blant yn cynrychioli 12 o ysgolion Caerdydd a ffurfiwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod dan ofal Mair. Cyflwynwyd amrywiaeth o ddatganiadau swynol gan y Côr yn cynnwys un o gyfansoddiadau Mair ar eiriau'r gerdd Ynys Afallon gan T. Llew Jones.

Diolchwyd i Mair a'r Côr am eu cyfraniad arbennig i'r seremonïau.

Person Prysuraf Yr Eisteddfod

Llongyfarchiadau cynnes i Delyth Medi, gynt o Landre, Llambod ar ei chyfraniad amhrisiadwy tuag at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Heb os, hi oedd un o'r prysuraf yn ystod yr wythnos. Delyth oedd wedi hyfforddi'r Côr Ieuenctid ar gyfer y cynhyrchiad agoriadol gwyh 'Hwn yw fy Mrawd' ac roedd cyfraniad y bobol ifanc yn un i'w drysori. Bu'n arwain y Gymanfa Ganu gydag urddas ac roedd yn aelod o bedwarawd cerdd dant buddugol Glantaf a hefyd bu'n hyfforddi unigolion a phartïon llwyddiannus. I goroni'r cyfan cyflawnodd Côr Merched Canna dan ei harweiniad y dwbwl trwy ennill cystadleuaeth y Côr Merched a'r Côr Gwerin. Do, bu'n Eisteddfod i'w chofio i Delyth ac mae pawb yn ardal Llambod yn ymfalchïo yn ei llwyddiant a'i llafur diflino i'r Eisteddfod.

Cymdeithas Hanes Llambod

Bydd cyfarfodydd y Gymdeithas Hanes yn ail-ddechrau ym mis Medi, yn cwrdd yn Hen Neuadd Prifysgol y Drindod Dewi Sant ar y trydydd nos Fawrth bob mis, ac yn dechrau am 7.30 yh.

Bydd cyfarfod mis Medi felly ar y 18fed o'r mis, a'r siaradwr gwadd bydd Simon Evans, Cwrtnewydd. Bydd yn rhoi Hanes Plwyf Llanwenog, (Rhan 1).

Croeso cynnes i bawb. Pris aelodaeth am y flwyddyn yw £10, neu fe allwch daro heibio yn achlysurol, - pris £2 wrth y drws.

Amgueddfa Llambod

Mae pobl o bedwar ban byd wedi ymweld â'r Amgueddfa eleni eto, ond mae'n syndod clywed cynifer o bobol yr ardal yn dweud nad ydynt erioed wedi taro heibio.

Mae'r casgliadau yn cael eu newid yn flynyddol er mwyn cadw diddordeb yn y lle, felly dewch i weld beth sydd yno.

Derbyniwyd nifer o eitemau hanesyddol dros y misoedd diwethaf a cheir mwy o hanes ambell i rodd cyn hir.

Bydd yr Amgueddfa ar agor hyd ddiwedd mis Hydref.

Diolch

Dymuna Hedydd a Roger Thomas, Gilfachwen ddiolch i bawb am y cardiau a'r cyfarchion ar achlysur eu Priodas Arian ym mis Gorffennaf.

Dymuna Eryl, Nantsebon a'i theulu ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau lu, anrhegion, galwadau ffôn a phob cymwynas a dderbyniodd yn ystod ei hanhwylder yn ddiweddar. Diolch enfawr i'w Optegydd, Evans & Hughes a'r staff, Llanbed; Uned Frys Ysbyty Bronglais ac Ysbyty Arbenigol y Llygaid ym Mryste am bob cyngor, gofal arbennig a thriniaeth gydol y cyfnod.

Llanbedr Pont Steffan



Oedfa Gyflwyno

Cafwyd prynhawn o lawenhau yn Noddfa ar achlysur arbennig, sef Oedfa Gyflwyno Tryfan Samuel, mab bach Rob a Delyth Phillips i ofal Duw a hynny ar ddydd ei ben-blwydd cyntaf. Nid yw Noddfa yn ddiethr i Tryfan gan ei fod yn mynychu'r oedfaon yn rheolaidd gyda'i rieni ers ei fod yn rhai wythnosau oed. Estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb gan ein gweinidog y Parchedig Jill Tomos a braf oedd gweld teulu Tryfan wedi teithio o bell ac agos i ymuno yn y dathlu.

Darllenwyd rhannau o'r ysgrythur gan y Parchedig Stephen Morgan, wncwl Delyth, sef y ganfed salm a'r hanes hyfryd am Iesu yn bendithio plant bychain. Gweddiwyd gan yr Athro Densil Morgan. Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan neges bwrpasol ac effeithiol y Parchedig Jill Tomos yn seiliedig ar yr adnodau a ddarllenwyd.

Roedd ein gweinidog wrth ei bodd yn croesawu'r teulu i'r sedd fawr yn enw Iesu, a Tryfan yn ôl ei arfer yn ymddwyn yn dawl ac yn siriol wrth iddi ei dderbyn yn ei breichiau a'i fendithio. Bu'r gynulleidfa yn canu emynau addas sef 'Dod ar fy mhen' a 'Iesu tirion' ac i gloi cafwyd canu gorfoleddus o eiriau Elfed, 'Arglwydd Iesu dysg im gerdded drwy y byd yn ôl dy droed'.

Roedd hon yn Oedfa werthfawr ac ysbrydoledig, yn enwedig yn yr oes bresennol a diolchodd Alun i bawb oedd wedi cymryd rhan. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet.

Bu pawb wedyn yn mwynhau lluniaeth yn festri Brondeifi ac yn ymuno yn nathliadau pen-blwydd Tryfan a chymdeithasu o amgylch y byrddau. Roedd pawb wedi cael pleser mawr a bendith yn ystod y prynhawn.

Cylch Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Bydd y Parchedig Jill Tomos yn gadael y Cylch fel gweinidog ddiwedd Medi. Rydym yn dymuno'n dda iddi hi a Hywel wrth iddyn nhw adael eu cartref yng Nghwmman a symud i'r gogledd. Mae Jill wedi bod yn weinidog ar chwech o eglwysi yn yr ardal - Noddfa (Llanbedr Pont Steffan), Bethel (Silian), Caersalem (Parcyrhos), Aberduar (Llanybydder), Seion (Cwrtnewydd) a Brynhafod (Gorsgoch). Cynhelir oedfa arbennig ddydd Sul, 30 Medi, am 2 o'r gloch y prynhawn yng nghapel Aberduar - croeso cynnes i bawb, a bydd te i ddilyn yr oedfa yn y festri. Cynhelir casgliad, pe dymunech gyfrannu, at ddwy elusen leol: Cadwyn Teifi a'r Banc Bwyd yn Llanbed.

Llongyfarchiadau

Ar y 29ain o Fehefin, ganwyd Alys Rose, merch i Rhidian a Louise, Y Felin, Llanharan a chwaer fach i Tom. Mae Alys yn wyres i Beti a Goronwy Evans, Y Mans, Stryd Newydd, Llanbed. Hi yw'r wyres gyntaf, ac mae wedi cael croeso mawr gan y pedwar ŵyr arall.

Brondeifi

Ar Sul y Tadau daeth tyrfa dda ynghyd i wasanaeth dan ofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Yn dilyn yr oedfa ymunodd 34 o bobol y capel gyda'r gweinidog ym Mwyty Indiaidd Llanbed yn Stryd y Coleg. Cafwyd pryd blasus a phawb yn mwynhau'n fawr.

Ar y 29ain o Fehefin, yn 72 oed, bu farw Mrs Margaret Jones, Glanhelen. Collodd Brondeifi un a oedd yn ffrind ffyddlon i bawb ac yn gefnogol i bopeth a oedd o les i ddynoliaeth a diwylliant. Bu'n aelod gweithgar a theyrnga ar draws y degawdau, ac roedd yn fawr ei pharch yn ei hardal a thu hwnt. Roedd Margaret yn llawn egni ac yn ysbrydoliaeth i bawb oedd yn ei nabod hi. Bydd bwlch anferth ar ei hôl, a chymdeimlwn gyda'r teulu i gyd. Cynhaliwyd ei hangladd ar y 5ed o Orffennaf ym Mrondeifi, o dan ofal ei gweinidog, y Parch. Alun Wyn Dafis. Yn cynorthwyo roedd y Parch. Cen Llwyd, y Parch. Peter Hewis, y Parch. Wyn Thomas a Melda Grantham. Ei chyn-weinidog, y Parch. Goronwy Evans, a oedd yn nabod Margaret ers dros hanner canrif, a fu'n talu teyrnged iddi.

Ddydd Sadwrn y 7fed o Orffennaf, bu farw baban bach newydd-anedig



Rhai o aelodau Shiloh a Soar Llanbed ynghyd â ffrindiau a aeth ar y trip blynyddol i Ganolfan Mari Jones yn Llanycil yn ystod yr haf ac yna ymlaen i'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, Trefnwyd y daith - fel pob blwyddyn - gan Twynog Davies. Diwrnod i'w gofio a phawb wedi mwynhau.

Gareth a Claire, Wernddu, Cribyn, wyres Menna a Glanville, Garej Pontfaen, Llanbed. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu tristwch.

Ar yr 21ain o Orffennaf, yn wythnos y Sioe Fawr, bu farw Mr Picton Jones, yn 86 oed. Bu Picton yn aelod ym Mrondeifi ers yn ddyn ifanc. Roedd yn adnabyddus ar draws Prydain a thu hwnt fel pencampwr mawr ei fri ym myd y dofednod. Yn ogystal, roedd yn feirniad parchus a deallus, ac yn awdurdod yn ei faes. Cydymdeimlwn â'i wraig, Helena, a'r teulu i gyd yn eu colled. Ei gyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans, a fu'n talu'r deyrnged olaf iddo.

Wedi'r gwasanaeth ar Sul olaf Gorffennaf aeth criw o Frondeifi i gael cinio yng Ngwesty'r Castle Green - dathliad bach cyn bod rhai yn mynd ar eu gwyliau ar gyfnodau gwahanol ym mis Awst. Cafwyd pryd blasus a phawb yn mwynhau.

Ddiwedd mis Medi fe fydd y Parch Alun Wyn Dafis yn mentro o Frondeifi am rai wythnosau ac yn mynd i America. Fe fydd

yn cyfnewid pulpud am fis gyda gweinidog o Boston, Massachusetts sy'n dysgu Cymraeg. Dymuniadau gorau i'r ddau, a chofiwch y bydd aelodau Brondeifi yn croesawu aelodau o gapeli eraill y dre a'r ardal i ambell oedfa i gael cyfle i gyfarfod â'r gweinidog fydd yn ymweld â ni, ac i ddymuno'n dda iddi.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys gyda Priscilla a Sam Thomas a'r teulu, Beehive, Stryd Fawr ar golli brawd annwyl, Emyr James o Aberystwyth. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chi fel teulu.

DYDDIAD NEWYDD SIOE 2019

Cynhelir Sioe Amaethyddol Llanbed

ar Ddydd Sadwrn,
6ed o Orffennaf 2019

Rhannwch y neges os
gwelwch yn dda.



Trefnwyd sesiwn i gasglu sbwriel gan Faer Llanbed a'r Cyngor Tref ddydd Sadwrn, 14eg Gorffennaf gyda phawb yn ymgynnull ym Mharc yr Orsedd. Roedd yn rhan o'r fenter Caru Llanbed.

Yn y llun mae'r maer Ann Morgan a'i chydymaith Densil Morgan gyda'r cynghorwyr Hag Harries, Dave Smith, Rhys Bebb Jones a'r helpwyr Vinnie Shaw a Brynmor Gibbons o'r Beavers gyda'u harweinydd Rachel Gibbons.

Cynhelir y sesiwn nesaf ar y trydydd dydd Sadwrn ym mis Hydref am 10 y bore. Mae croeso i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elinor Jones, wyres Pamela ac Emlyn Davies, 4 Heol y Bryn ar ennill gradd BSc – gradd 1af gydag anrhydedd [rhyngwladol] mewn Gwyddoniaeth, Technoleg a Maeth ym Mhrifysgol Leeds. Treuliodd flwyddyn allan yn Awstralia hefyd. Pob lwc i'r dyfodol.

Cartref newydd

Gobeithio bod Mrs Eira Morgan, Dolardd yn setlo yn ei chartref newydd yn Llandysul erbyn hyn. Cofion cynnes atoch.

Llwyddiant Cenedlaethol a Lleol

Llongyfarchiadau mawr i ferched Fronddu, Ela Mablen a'i mam Carys ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn ystod dechrau mis Awst. Cafodd Ela yr ail wobwr yn yr Unawd Cerdd Dant

dan 12 oed a 3ydd am yr Unawd Alaw Werin dan 12 oed a Carys yn cael yr ail wobwr yn yr Unawd Mezzo Soprano / Contralto dros 25 oed. Hefyd gwelwyd drama Heiddwen 'Milwr yn y Meddwl' yn cael ei llwyfannu bob nos drwy gydol yr wythnos. Gwych, ferched, o'r hynaf i'r ieuengaf.

Cafodd merched Fronddu llwyddiant anhygoel eto yn Eisteddfod Rhys Thomas James dros Wyl y Banc eleni. Nanw yn ennill y Llefaru dan 6 oed yn yr adran gyfyngedig ac Ela Mablen yn ennill llu o gwpanau ar y dydd Sadwrn a'r dydd Llun, ac yna llwyddiant i Heiddwen wrth iddi ennill y Goron a'r Fedal Ryddiaith, y tro cyntaf erioed i hynny ddigwydd yn hanes yr Eisteddfod. Rhagorol, ferched, a haf i'w gofio i bob un ohonoch.

Hefyd ymfalchiwn yn llwyddiant

Huw Evans, Alltgoch gan iddo ennill yn y Babel Lân drwy greu Filanél ar y testun Breuddwyd. Da iawn, Huw. Mae Huw hefyd wedi bod yn llwyddiannus gyda'i ddefaid Llanwenog mewn gwahanol sioeau amaethyddol yn ystod yr Haf.

Hefyd mae Paul Williams a'r teulu, Clyncoch wedi bod yn llwyddiannus gyda'u hieir a'u gwartheg godro mewn gwahanol sioeau.

Ymfalchiwn yn llwyddiant bob un ohonoch gan roi Cwrtnewydd ar y map unwaith yn rhagor.

Priodas

Dechrau mis Awst priododd Sulwyn Jenkins, Cathal â Catrin yn Eglwys Mwnt. Hir oes i chi eich dau yn eich bywyd priodasol.

Barnu Stoc



Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o C.Ff.I. Pontsian a fu'n cynrychioli Ceredigion ym Marnu Stoc Gwartheg Godro yn y Sioe Frenhinol. Daeth llwyddiant mawr i'w rhan wrth iddi ennill yr adran o dan 18 oed.

Hefyd, cafodd ei dewis gan C.Ff.I. Cymru i siarad â Phrif Weinidog Prydain, Theresa May a oedd yn ymweld â'r Sioe ar y diwrnod hynny! Gobeithio i ti fwynhau'r profiad.

Da iawn ti Beca.

Diolch i bawb a wnaeth ymaelodi â CHLWB CLONC eleni eto. Dros 500 o aelodau!!

O San Steffan gan Ben Lake AS



Ydych chi wedi clywed am yr ymgyrch WASPI?

Dyma un o'r ymgyrchoedd cyntaf i mi eu cefnogi pan gefais fy ethol yn Aelod Seneddol, a hynny am ei fod yn effeithio ar oddeutu 5,000 o fenywod yng Ngheredigion. Ydych chi'n un o'r rheiny? Gawsoch chi eich geni yn yr 1950au?

Os ydych chi, mae'n bosib iawn eich bod chi wedi cael eich effeithio gan benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gynyddu'r Oed Ymddeol Gwladol, ac mae ymgyrch WASPI yn brwydro'n galed iawn i ddod â chyfiawnder i'r menywod hynny.

Yn 1995 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol gynnydd graddol yn Oed Ymddeol Gwladol menywod o 60 i 65, ond ni roddwyd rhybudd digonol i'r menywod hynny oedd yn cael eu heffeithio. Prif ddadl ymgyrch WASPI yw'r diffyg rhybudd a gafodd menywod a anwyd yn yr 1950au am y newidiadau i'w pensiwn gwladol.

Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn datgan bod y Llywodraeth wedi aros tan 2009, h.y. 14 mlynedd ar ôl Deddf 1995, cyn ysgrifennu yn unigol at y menywod oedd yn mynd i gael eu heffeithio. Ym mis Mawrth 2011 stopiodd y Llywodraeth ysgrifennu at fenywod oherwydd bod Llywodraeth y Glymblaid yn ystyried deddfwriaeth bellach. Dyma oedd dechrau Deddf Pensiynau 2011, a gododd yr oed ymddeol i 66. Dechreuodd y Llywodraeth ysgrifennu at y menywod fyddai'n cael eu heffeithio yn 2012 a hynny'n rhoi ychydig iawn o rybudd ynghylch y newidiadau oedd ar y gorwel.

Yn ogystal â chodi'r mater yn y siambr yn San Steffan, dwi hefyd wedi ymuno â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anghydraddoldeb Pensiwn Gwladol i Fenywod gyda'r bwriad o ddal y Llywodraeth i gyfrif ac ymladd dros gyfiawnder.

Yma yng Ngheredigion cynhaliais gyfarfod cyhoeddus yn Aberteifi ym mis Gorffennaf, ac o ganlyniad i'r gefnogaeth frwd a gafwyd y noson honno, dwi wedi penderfynu cynnal rhagor o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws y sir gyda'r nod o sefydlu grŵp ymgyrchu WASPI Ceredigion.

Ddydd Llun, 24 Medi byddaf yn cynnal cyfarfod cyhoeddus i drigolion ardal Clonc yn Neuadd Buddug, Llanbedr Pont Steffan am 7 o'r gloch. Felly os ydych chi wedi cael eich effeithio gan y newidiadau i'r pensiwn gwladol ac os hoffech chi glywed mwy am ymgyrch WASPI, mae croeso cynnes i chi ymuno â mi yn y cyfarfod ar y 24ain.



Paul Williams, Clyncoch enillydd Pencampwriaeth y Bridiau Ysgafn gyda'i 'Black Minorca' yn y Sioe Frenhinol.

Eglwysi Suzy Bale



Yn y llun gwelir y Canon Suzy Bale a orffennodd ei swydd fel Ficer Plwyfi Llanybydder, Llanllwni, Llanwenog a Llanwnnen, ar ôl 8 mlynedd, ar y 1af o Orffennaf 2018. Rhannwyd pryd o fwyd yn y Llew Du, Llanybydder i nodi'r achlysur. Roedd aelodau'n drist i ffarwelio â Suzy ond dymunwyd pob bendith iddi wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd yn Ficer Eglwys Rhydaman. Hefyd yn y llun gwelir Wardeiniaid yr Eglwysi.



Braf bod nôl yn y gegin wedi hoe yr Haf. Wel, am haf poeth – sy'n golygu bod y cynhaeaf yn gynnwys eleni. Mae'r mwya'r yn bendant wedi aeddfedu ac roeddwn wedi dechrau eu casglu ganol Mis Awst, sy'n annisgwyl iawn.

Felly rwyf am rannu gyda chi rai o'r rysetiau bum yn eu paratoi dros yr wythnosau diwethaf. Maent yn flasus ac yn gymharol ddi-ffwdan i'w paratoi, gan ddefnyddio cynhwysion sydd yn eich cwpwrdd yn y gegin. Mae hefyd yn gyfle perffaith i baratoi jam mwya'r a'i storio erbyn y gaeaf.

Mwynhewch fwyar Mis Medi

Gareth

Pwdin Mwya'r Mis Medi

10 tafell o fara	100 g llus
200 g mwya'r	2 llwy fwrdd siwgwr

Dull

1. Torrwch gylch o fara i lenwi gwaelod basn. Yna torrwch y gweddill yn frigau i'w gosod o amgylch yr ochr.
2. Gosodwch y ffrwythau mewn sosban gyda'r siwgwr ac ychydig ddŵr, a'u coginio nes yn feddal. Rhowch y ffrwythau yn y basn, gan roi haenen o fara dros y top.
3. Rhowch yn yr oergell dros nos i setio. Trowch allan ar blat a gweiniwch gyda hufen.

Cig oen a saws Mwya'r (digon i 4 person)

12 noisette cig oen	halen a phupur
12 sialotsyn wedi'u plicio	1 llond llwy fwrdd olew
25 g menyf ¼ peint stoc	3 llwy fwrdd Port
100 g mwya'r	

Dull

1. Rhowch ychydig halen a phupur ar y darnau cig a'u ffrio mewn menyf nes eu bod yn binc yn y canol. Cadwch yn gynnes.
2. Gosodwch y sialots yn y badell ffrio a'u ffrio nes yn euraidd. Rhowch gyda'r cig oen.
3. Rhowch y Port a'r stoc yn y badell gyda'r mwya'r a'u gadael i ferwi am ychydig i leihau'r stoc a'i dewhau. Gweiniwch gyda'r cig a'r sialots a llysiau'r Hydref.

Clafoutis Mwya'r

100 g blawd codi	1 llwy fwrdd powdwr codi
50 g siwgwr	2 llwy fwrdd o laeth
1 pwys o fwyar	1 ŵy
50 g menyf wedi'i doddi	1 oren

Dull

1. Rhidyllwch y blawd a'r powdwr codi i fowlen. Ychwanegwch yr ŵy a'r laeth a chwipiwch i greu cyteu. Yna plygwch y menyf a'r siwgwr i mewn iddo.
2. Cymysgwch y mwya'r gydag ychydig ddŵr a sest a sudd oren. Gosodwch mewn dysgl addas i'r ffwrn, ac arllwyswch y cyteu drosodd. Pobwch ar wres 180 C, Nwy 4 am 30 munud nes ei fod wedi setio. Gweiniwch gyda hufen ia.

Tips: -

- Mae dŵr yn meddalau'r mwya'r ac yn colli eu blas; felly peidiwch â'u golchi heblaw eu bod yn fudr.
- Rhowch fwyar ar hambwrdd os am eu rhewi a'u rhoi yn y rhewgell. Pecynnwch nhw ar ôl eu rhewi gan fydd y mwya'r yn rhydd ac yn haws i'w defnyddio.



Rhys Batt, Cribyn a Chaerdydd yn ennill Llais Llwyfan Llanbedr 2018. Yn y llun hefyd mae Delyth Morgans-Phillips, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith; Jeanette Massocchi, Llywydd a Twynog Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cerdd.

Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan 2018

Unwaith eto eleni, ar Ŵyl Banc Awst, roedd tref Llanbed yn llawn bwrilwm ar gyfer yr Eisteddfod flynyddol. Tridiau llawn o gystadlu a gweithgareddau.

Mae blas lleol i ddydd Sadwrn yr eisteddfod, a braf oedd rhoi'r cyfle i blant ac ieuencid lleol gystadlu ar lwyfan mawr neuadd Ysgol Bro Pedr, iddyn nhw gael cyfle i fagu hyder a meithrin talent. Hyd yn oed os nad yw pobol eisiau canu neu adrodd neu chwarae offeryn, mae cyfle iddyn nhw gystadlu yn yr adran lenyddol ac yn y cystadlaethau celf a chreffft.

Eglwys San Pedr oedd cartref Oedfa'r Eisteddfod eleni, a chafwyd croeso cynnes gan aelodau'r eglwys. Y Parchedig Aled Lewis, curad Tregaron, wnaeth ein harwain drwy'r oedfa a phregethu.

Roedd Llais Llwyfan Llanbed yn dathlu'r arian eleni – 25 mlynedd o gystadlu i unawdwyr mwya'r addawol Cymru. Bu pedwar cystadleuydd uchel eu safon yn ein diddanu ar y nos Sul. Llongyfarchiadau i Rhys Batt – sydd â'i rieni yn byw yn Cribyn – a ddaeth i'r brig.

Daeth rhai o bell ac agos wedyn i gystadlu ar y dydd Llun. Y rhagbrofion yn dechrau am 9 o'r gloch y bore, a'r eisteddfod yn dod i ben ychydig cyn 11 o'r gloch yr hwyr. Yn ogystal â'r cystadlu ar lwyfan yr ysgol, cynhaliwyd Talwrn y Beirdd hwyliog yn festri Shiloh.

Braf oedd cael teilyngdod ym mhob un o'r seremonïau. Merch leol, Manon Williams o Bencarreg, gipiodd y Fedal Gelf. Llongyfarchiadau i Carwyn Eckley, Caerdydd am ennill y Gadair dan 25 oed, a Sara Jones o Ffostrasol gipiodd y Tlws Ieuencid. Enillodd Philippa Gibson y Gadair, a chyflawnodd Heiddwen Tomos, Pencarreg, y dwbwl drwy ennill y Goron a'r Fedal Ryddiaith. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr ŵyl arbennig hon. Diolch hefyd i'r llywyddion am eu cefnogaeth a'u hareithiau – Eiry Jones, Jeanette Massocchi a Ben Lake.

Cofiwch am y gyngerdd gyda Chôr Bro Meirion ac enillwyr lleol yn Eisteddfod yr Urdd, ar 22 Medi yn Theatr Felinfach. Edrychwn ymlaen wedyn at Eisteddfod 2019!

Croeso i GÔR CYMYSG BRO MEIRION

Braint fydd cael croesawu un o gorau cymysg gorau Cymru i Theatr Felinfach nos Sadwrn Medi 22. Ymysg yr artistiaid bydd dau enillydd cenedlaethol, sef yr Arweinydd ei hun, y milfeddyg Iwan Wyn Parry (Y Rhuban Glas) ac Edryd Williams, cyn enillydd yr Alaw Werin yn y Brifwyl. Mae'r Côr hefyd wedi ennill y gystadleuaeth Corau Cymysg ac eleni, mewn cystadleuaeth wych, dyfarnwyd y côr yn ail allan o saith o gorau yn Eisteddfod Caerdydd - tipyn o gamp.

Mi fyddwn hefyd yn rhoi llwyfan i enillwyr y plant a'r bobl ifanc a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanellwedd. Mae yna noson wirioneddol wych yn eich disgwyl. Gwnewch yn siŵr o'ch tocyn drwy gysylltu gyda'r Theatr ar unwaith - rhif ffôn 01570 470697. Mi fydd Eisteddfod RTJ yma yn Llanbed yn gwerthfawrogi eich presenoldeb a'ch cefnogaeth yn fawr iawn.



Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan

yn cyflwyno noson yng nghwmni

CÔR BRO MEIRION



ac enillwyr lleol Eisteddfod yr Urdd 2018

7:30pm Nos Sadwrn, Medi 22ain, 2018

yn THEATR FELINFACH

Oedolion £10
Plant Ysgol £5

Tocynnau ar gael o'r theatr:
01570 470697
www.theatrfelinfach.cymru

Llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd



Llongyfarchiadau i Alwena Mair Owen, Cwmeri, Llanllwni am ennill y wobwr gyntaf yn yr Unawd dan 12oed yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.



Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu a gafodd yr 2il wobwr yn Unawd Cerdd Dant dan 12 a 3ydd yn yr Alaw Werin dan 12 oed.



Parti Man a Man a hyfforddwyd gan Elin Williams, Y Garn a ddaeth yn 1af yn y gystadleuaeth Parti Llefaru.



Côr Llefaru Sarn Helen a ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod. Hyfforddwyd hwy gan Elin Williams, Y Garn, Cwmann.



Elliw Dafydd, Gwarffynnon, Silian a ddaeth yn 2il yng nghystadleuaeth y Llefaru Agored.



Cerys Angharad, Pencarreg a ddaeth i'r brig yn yr Unawd Telyn dan 16 oed er ei fod ond yn 10 oed. Hefyd ddaeth yn 3ydd yn y ddeuawd offerynnol agored gyda'i ffrind.



Carys Griffiths-Jones, Fronddu, Cwrtnewydd a ddaeth yn 2il yn yr Unawd Mezzo-Soprano dros 25 oed. Hefyd enillodd yr Her Unawd yn Eisteddfod Upper Chapel yn ddiweddar.

steddffod ^{1/2} call a dwl

Papurau Bro Ceredigion

Nos Wener 12 Hydref 2018

Neuadd Felinfach

Drysau'n agor: 7pm Cystadlu'n dechrau: 7.30pm

Tâl mynediad: £3

Arweinydd Ben Lake AS
Beirniaid Elen Pencwm ac Aled Evans

Cystadlaethau Llwyfan
Darllen dam heb atalnodi
'Sgen ti 'dric parti'?
Dim mwy na 3 munud

Parti llefaru
Darlleniad dramatig allan o bapur bro
Hunan-ddewisiad

Cyflwyniad cerddorol
Triawd y Buarth

Cân Actol
Ar lan y môr
Dim mwy na 4 munud

Gwaith Cartref
Ysgol Gynradd
Llun unrhyw gyfrwng: Y Môr

Ysgol Uwchradd
Erthygl addas i bapur bro
Testun: Y Môr

Dysgwyr
Dyddiadur Diwmod Braf

Agored
Brawddeg TRAWSGOED

Limrig
'Rwyf nawr yn rhy hen medde Sam!

Stori Ficro - dim mwy na 100 gair

Fotograffiaeth
Eich holf le yng Ngheredigion

Cefnogwch eich Papur Bro!
Dewch mlân - cystadlwch!

Danfonwch eich gwaith cartref (o dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw eich papur bro mewn amlen) erbyn 5 Hydref i: Y DDOLLEN, Brynawel, Trefenter, Aberystwyth, SY23 4HU neu drwy ebost i y.ddollen@gmail.com

Priodas Dda



Priodi

Ar ddiwedd mis Awst priodwyd Bleddyn Price, Esgerion ac Emma yng Nghapel Brynteg. Hefyd yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd eu dwy ferch fach ac roedd y cyfan yng nghofal y Parch. Goronwy Evans o Lamed. Hir oes a llongyfarchiadau i chi fel teulu.

Sioeau lleol yr ardal



Llywydd y Sioe, Mrs Beti Rees, Llandysul gydag enillwyr y cwpanau a'r tlysau yn Sioe Cwmsychbant. Yn y llun hefyd mae cynrychiolwyr Diabetes UK Cymru, Lianne Jenkins, Rhian Liddiard a Menna Plassmann. Dyma'r elusen sy'n derbyn holl elw'r sioe eleni. Ers ei sefydlu mae'r sioe wedi cyflwyno £146,000 i elusennau.



Enillydd y gystadeuaeth dan gyfrwy (dan 12 oed) yn Sioe Cwmsychpant oedd Mari Gwenllian Evans, Blaencwrt yn marchogaeth Alice.



Llun o Adran dan 26ain oed yn Sioe Gorsgoch.



Dyma lun o buddugwyr Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog ar ddiwrnod y sioe ynghyd â'r llywyddion Mr a Mrs Daniel Evans, Tandderi.



Pencampwr Rhyng-frid adran y gwartheg yn Sioe Llambled oedd buwch Holstein Topshot Blomke, eiddo Paul a Bryn Williams, Cwrtnewydd.



Yn yr Adran Goginio yn Sioe Llambled aeth y cwpan am y pwyntiau uchaf i Sian Jenkins, Llanbed.



Enillydd y basged orau o Gynnyrch yr Ardd yn Sioe Gorsgoch oedd Bessie Williams, Clynoch, Cwrtnewydd.



Llywydd y Dydd yn Sioe Llanfair y Parch. Bill Fillery yn cyflwyno plât arian i Iris Quan a enillodd y marciau uchaf yn y Sioe ac hefyd yn Adran Goginio. Hefyd yn y llun mae ei hŵyr, Rhydian Quan, a enillodd y marciau uchaf yn Adran y Plant.



Enillydd cystadleuaeth yr eitem wedi ei ailgylchu oedd Brynmor Thomas, Llanfair Clydogau



Enillwyr Sioe Llanllwni a gynhaliwyd ar ddydd Llun Gŵyl y Banc.

Ysgol Llanllwni

Fe fu wythnosau prysur iawn yn yr ysgol cyn ddiwedd y tymor gyda nifer o wahanol weithgareddau. Bu'r Adran Iau lan i'r Talardd am sesiwn un prynhawn yn sgwrsio gyda aelodau'r gymuned am hanes eu plentyndod fel rhan o Ddigwyddiad Cymunedol / Rhwng Cenedlaethau. Bu'n sesiwn diddorol iawn.

Bu rhai o'r plant yn cymryd rhan yn Noson Goffi yr Eglwys. Roedd ganddynt eitemau amrywiol, yn unigolion a grwpiau, gan gael clod uchel am eu perfformiadau. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio.

Bu pawb yn cymryd rhan ym mabolgampau Cylch Pencader ddechrau mis Gorffennaf. Gwnaethom yn arbennig o dda fel ysgol gyda nifer o'r plant yn dod i'r brig fel unigolion a chafwyd llwyddiant arbennig hefyd yn y cystadlaethau tîm. Diolch i'r rhieni a ddaeth i'n cefnogi a diolch i staff Ysgol Cae'r Felin am drefnu'r dydd a'r croeso.

Bu'r Cyfnod Sylfaen yn dathlu Pen-blwydd Cyw yn 10 oed drwy gael diwrnod cyfan o weithgareddau. Dechreuodd y diwrnod gyda syrpreis pan ymwelodd Elin Haf ac aelod arall o S4C â'r ysgol. Roedd pawb wedi dod mewn gwisgoedd ffansi a chanwyd "Pen-blwydd Hapus" a thynnwyd lluniau o bawb gyda Elin Haf. Yn ystod y dydd cawsom stori, canu, gemau, lliwio a pharti mawr gyda'r Adran Iau yn ymuno gyda ni. Torrwyd y gacen a oedd wedi cael ei gwneud yn arbennig i'r achlysur.

Bu tîm o'r Adran Iau yn chwarae pêl-droed yn Brynsaron gan fwynhau chwarae yn erbyn timoedd eraill. Da iawn chi!

Cafwyd Diwrnod Hwyl llwyddiannus iawn ar Gae Chwarae y pentref ddydd Sadwrn y 7fed o fis Gorffennaf gyda'r ysgol, yr Ysgol Feithrin, y C.Ff.I a'r Cyngor Bro yn trefnu a chydweithio yn hwylus iawn. Roedd yn braf gweld y gymuned wedi dod ynghyd ac yn mwynhau a chymdeithasu. Roedd nifer wedi gwneud ymdrech i wisgoi lan yn y carnifal ac roedd rasys y mabolmapau, y gemau heb ffiniau, a'r tynnu gelyn wedi denu pob oed i gystadlu a chael hwyl. Roedd yna amrywiaeth o stondinau a lluniaeth hefyd. Diolch i'r llywyddion, Mr. a Mrs. Emyr Evans, am eu rhodd. Diolch i'r holl fusnesau am noddi'r Diwrnod Hwyl ac i bawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd.

Bu Miss Siân, Tomasz, Elan a Caio ym Mharc y Sgarlets yn derbyn y bumed deilen gan gynllun Ysgolion Iach. Yn ystod y dydd cawsant gyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol. Y cam nesaf bydd y "Wobr Ansawdd".

Buom ar ein trip diwedd tymor i Manor Park. Cawsom ddiwrnod

bendigedig gan weld nifer o anifeiliaid gwahanol a cyfle i chwarae.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau dros yr Haf, naill ai mewn sioe, eisteddfod neu chwaraeon. Da iawn chi gyd.

Mae'r tymor newydd wedi dechrau ac rydyn wedi croesawu Megan Jones atom i'r dosbarth Meithrin yn y caban. Mae wedi setlo ac yn hapus iawn.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:

Mis Gorffennaf:-

1af - £50 - Betsan Jones, Cwrt y cadno, Llanllwni

2ail - £40 - Ifan Davies, Abercwm, Llanllwni

3ydd - £30 - Karen a Lance Wood, Llanwnnen

4ydd - £20 - Delia Buckley, Maesgwyn, Llanllwni

5ed - £10 - Erin Evans, Parklane, Llanllwni

6ed - £5 - Gwion Evans, Bryncyrch, Llanllwni

Mis Awst:-

1af - £10 - Adrian George, Haulfryn, New Inn

2ail - £5 - Charlotte Evans, Talylychau

3ydd - £5 - Kevin Jones, Trysor, Llanllwni

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Clwb 100 Enillwyr mis

Gorffennaf—

1. £15 Ray Harries (127) 2. £10 Eiddwen Rees (119) 3. £10 Meinir Evans (138).

Clwb 100 mis Awst

1 £15 Teulu Wern Fach (64) 2. £10 Geraint a Denise Thomas (20) 3. £10 Maldwyn Owen (66)

Diolch i bawb am eu cefnogaeth

Ar Orffennaf 24ain, teithiodd nifer o aelodau'r grŵp i wasanaeth sefydlu'r Parch Suzy Bale yn Rhydaman. Mae'n ein gadael gyda'n dymuniadau gore yn ei gweinidogaeth newydd.

Diolchwn yn fawr i'n Deon Gwlad, Parch. Philip Wyn, Tregaron am drefnu bod ficeriaid yn dod i'n gwasanaethau drwy gydol y mis.

Bydd ein gwasanaeth o ddiolchgarwch eleni nos Iau Hydref 4ydd am 7yh. Bydd gwasanaeth gan y plant am 2yp. Croesawir Parch. Ganon Aled Williams atom. Nos Wener cynhelir swper y cynhaeaf.

Bydd taith gerdded y ddeoniaeth ar Sul Medi'r 9fed yn cychwyn yn Eglwys Maestir am 2.30yp. ddydd Mawrth Medi'r 11eg. Dechreuir tymor Undeb y Mamau gyda chymun am 2 o'r gloch. Parch. Bill Fillery fydd yn gwasanaethu.

Yn ddiweddar yn Sant Luc, priodwyd Nathan Carr a Frances Davies. Pob bendith ar eu priodas.

Llongyfarchiadau i Owain Davies,



Mari Lois a Hana Grug, Trysor gyda'u gwobrau o'r Sioe Frenhinol eleni am eu diadell moch cwta a'i cwningen anwes 'Bryn'. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Gwndwn ar ennill ar yr adrodd digri yn 'Steddfoed Llanbed.

Telyn

Llongyfarchiadau i Alwena Owen, Cwmderi ar basio Gradd 3 Telyn a Gradd 3 canu gydag anrhydedd uchel.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Geraint a Iona, Lluest, Maesycrugiau ar enedigaeth merch fach, Lili Haf, chwaer annwyl i Beca Fflur.

Cylch Meithrin Llanllwni

Ar y 19eg o fis Awst, gwnaeth y pwyllgor drefnu gorymdaith dractor lwyddiannus iawn. Hoffai pwyllgor y cylch ddiolch yn fawr iawn i'r 21 tractor a wnaeth gwblhau 21 milltir o gwr, i'r plant a wnaeth yr orymdaith fach, i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at y bwyd a'r gwobrau raffl. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i wyllo ac i gefnogi.

O fis Medi mae Cylch Meithrin Llanllwni yn cwrdd bob bore ar gampws yr ysgol gynradd,



rhwng 8.45-12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Bethan Vernon ar 07377 781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Ein thema yn y Cylch am yr hanner tymor nesaf yw Myfi fy hun. Byddwn yn edrych ar ein delwedd, ein corff a sut i fod yn iach. Byddwn hefyd yn mwynhau gweithgareddau a phrofiadau sy'n ymwneud â lliwiau, diolchgarwch a'r Hydref.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynghawn dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded. Ein hamserlen am y mis nesaf: 4/9/18 - Gwneud cacennau reis crensiog siocled 11/9/18 - Tywod a chlai 18/9/18 - Parc y pentre 25/9/18 - Argraffu gyda llysiau 2/10/18 - DIM CYLCH TI A FI.

Canlyniadau Sioe C.Ff.I Llanllwni 2018

Sioe Cŵn Hwyl- Denise a Geraint Thomas. **Vintage**- John Davies.

Coginio - Teulu Blaenblodau.

Blodau - Sheila Smith. **Llysiau**

- Lewis Thomas. **Ysgol- Blwyddyn**

2 ac o dan - Einir George, Tirlan.

Blwyddyn 3-6 - Alwena Owen,

Abercwm. **Blwyddyn 7-18**- Hanna

Thomas, Bryn. **Creffft** - Teulu

Highview. **Cynnyrch Fferm**

- Gareth Jones, Blaenwaun.

Ffotograffiaeth- Gwyneth Richards.

Defaid Iseldir - Teulu Blaenblodau.

Defaid Mynydd - Teulu

Blaenblodau. **Pencampwr Defaid**

- Teulu Morgans, Glwydwern. **Beef**

- Glwydwern. **Dairy** - Gwarcwm.

Pencampwr Gwartheg - Gwndwn

Diolch i llywyddion y sioe eleni sef; Mr a Mrs Idris a Heulwen Evans, Pantycoubal ac hefyd i bawb a wnaeth noddi'r sioe a rhoi gwobrau raffl ac rhoddion i'r ocsiwn ac helpu mewn unrhyw ffordd i'w wneud yn siwr ei fod wedi bod yn diwrnod llwyddiannus.

Fe fydd cyfanswm yr elw yn y rhifyn mis nesaf.

Bydd Cymanfa Ganu'r clwb ar 23ain o Fedi, 7:30yh, yn Eglwys st Luc, Maesycrugiau, o dan arweiniad Elonwy Davies, welwn ni chi 'na!



Llanllwni

C.Ff.I. Llanllwni

Gyda holl weithgareddau'r CFfI yn dod i ben am flwyddyn arall, roedd hynny'n golygu bod rhai aelodau'r clwb yn mynd i'r Sioe Frenhinol i gystadlu. Fe wnaeth chwech o ferched y clwb gystadlu yn y grŵp canu a dod yn 4ydd. Llongyfarchiadau enfawr i chi - roedd hi'n dipyn o gamp!



Ar ôl dod 'nôl o'r sioe fe gynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb. Llongyfarchiadau i Hefin Jones ar gael ei ethol yn gadeirydd y clwb ac i Zac Addison ar ddod yn is-gadeirydd. Hoffem ddiolch i'r holl aelodau a'r arweinyddion am eu cyfraniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a phob lwc i'r rhai sydd wedi cael eu hethol i swyddi'r clwb dros y flwyddyn nesaf.



Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen

Llongyfarchiadau gwresog i Owain Davies, Gwndwn ar ennill cystadleuaeth Cyflwyniad Digri Agored yn yr Eisteddfod ar y nos Sadwrn. Llongyfarchiadau mawr iti.

Clwb Clonc

Medi

£25 rhif 373 :

Mrs Gwyneth Morgan,
Llety'r Dderwen, Cwmann.

£20 rhif 277 :

Mrs Menna Jones,
Tynewydd, Maesyrugiau.

£15 rhif 13 :

Rosina Carter,
28 Maes-y-Felin, Llambled.

£10 rhif 42 :

Mrs Wendy Davies,
Caerwenog, Penffordd,
Cwmsychpant.

£10 rhif 106 :

Dannie Davies,
Brynteify, Cwmann.

£10 rhif 430 :

Mrs Verina Roberts,
Gelli-aur, Parc-y-Rhos, Cwmann.

£5 rhif 183 :

Vincent George,
Ceris, Victoria Terrace,
Llambled.

HYD 21 Cyngerdd Telyn

Llywelyn Ifan Jones & Gymanfa Ganu

2018 United Kingdom Harp Association Emerging Artists
Datganiad telyn gan Llywelyn Ifan Jones i gynnwys Gymanfa Ganu.

Tocynnau: £8/£4 plant
Ar y Drws
at gynhaliath y capel

Hydref 21ain 6 p.m.
Capel Tynyngwmdwn
Felinfach
SA48 8BE

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

- * Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
- * Bwffe mawr neu fach
- * Danteithion i de
- * Pwdinau
- * Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Gorsgoch

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog 2018

Cynhaliwyd 38ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau a Hen Beiriannau Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwrn, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ddydd Sadwrn, 18fed o Awst. Prif elusennau y sioe eleni oedd Uned Ffisiotherapi Ysbyty Dydd y Priory, a Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Ceredigion.

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd arddangosfa sgiliau cŵn, mabolgampau i blant, cynnyrch alpaca gan 'Bird Farm Alpacas', paentio wynebâu ac ocsiwn lwyddiannus iawn yng ngofal Eifion Morgans. Am y tro cyntaf yn hanes y Sioe, cafwyd Sioe Gŵn lle bu llawer o gystadleuwyr brwd. Yna, cafwyd noson llawn sbort a sbri gyda'r 'Welsh Whisperer', castell neidio a bwrdd syrffio.

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, cafwyd ysbeidiau heulog a sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Daniel Evans, Tandderi, Llanwenog, i'r canlynol:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Matthew Dixon, New Foundry, Ffosyffin (Maellwch Madam Heartbreaker). Is-bencampwr – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron (Trenewydd Gwen); Marchogaeth – Pencampwr – Nikki Bond, Cwmpas Stud, Coedybryn, Llandysul (Edma Manon Haf). Is-bencampwr – Oliver Burbage, (Carygwyn Sincerity); Hynodion y Ceffylau – Sophie Evans; Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys – Matthew Dixon, New Foundry, Ffosyffin gyda Maellwch Madam Heartbreaker a ddangoswyd gan Calvert Williams.

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd). Is-bencampwr – Huw Evans, Alltgoch (dafad). Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd). Defaid Speckled – Pencampwr – Elfyn a Sharon Morgans, Glwydwrn (hwrdd). Is-bencampwr – Jones, Blaenblodau (dafad). Defaid Continental – Pencampwr – Jones, Blaenblodau (oen). Is-bencampwr – Teulu Tyngrug Isaf (dafad). Unrhyw frid "Lowland" arall – Pencampwr – Teulu Tyngrug Isaf, (dafad groes). Is-bencampwr – Teulu Glwydwrn (dafad) Unrhyw frid mynyddig arall – Pencampwr ac Is-bencampwr – Gafryw, Mydroilyn (hwrdd ac oen). Oen i'r cigydd – Pencampwr – Owain Jones, Blaenhirbant, Cwmsychpant. Is-bencampwr- Neuadd, Llanwnnen. Pencampwr y Pencampwyr yr adran ddefaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwrn – Teulu Morgans, Glwydwrn. Arddangosydd gorau – Ffion Williams, Penycoed, Caerfyrddin. Barnu Wyn Tew C.Ff.I – Owain Jones, Blaenhirbant, Cwmsychpant.

HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Eirian Evans, Y Ddôl, Alltbylaca.

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Teulu Morgans, Glwydwrn, Llanwnnen (eidon). Is-bencampwr – Teulu Morgans, Glwydwrn, Llanwnnen (buech gyda llo).

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (buech sych). Is-bencampwr – Teulu Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd (treisiad mewn llaeth). Enillydd y fuch neu dreisiad odro orau o fuches ddi-linach, ac yn derbyn Cwpan Her Ffynnonrhys – Teulu Tyngrug Isaf, Cwmsychpant.

SIOE GŴN: Pencampwr- Ann Cooper, Llanfyrnach (Jay)

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; **Coginio** – Gwyneth Morgans, Pensarnau, Llanwnnen; **Gwinoedd** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Cyffraith** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd; **Gwaith Llau** – Eluned Davies, Bryniau, Dihewid; **Blodau** – Andrew Davies, Llandysul; **Cystadlaethau 18 oed neu iau** – Nia Morgans, Glwydwrn, Llanwnnen; **Cystadlaethau 26 oed neu iau** – Lauren Jones, Awel y Gors, Gorsgoch; **Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau** – Lleucu Thomas, Blaenporth; **Blwyddyn 2 neu iau** – Alaw Mai Edwards, Dôl Fedw, Llanybydder; **Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog** – Ysgol Dyffryn Cledlyn; **Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd** – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; **Pencampwr y babell, ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller** – Margaret Jones, Cae Glas, Cwrtnewydd.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r sioe y flwyddyn nesaf, ddydd Sadwrn 17eg o Awst 2019.



Clybiau Ffermwyr Ifanc

C.Ff.I Sir Gâr

Sioe Frenhinol Cymru 2018

Eto eleni bu aelodau brwdfrydig o C.Ff.I Sir Gâr yn cystadlu trwy gydol yr wythnos mewn amryw o gystadlaethau yn Sioe Frenhinol Cymru. 'I Fyny Fry' oedd y thema eleni gan fod y Llu Awyr yn dathlu canmlwyddiant y flwyddyn yma.

Dyma ganlyniadau'r Sir eleni: Arddangosfa Ffederasiwn – 6ed C.Ff.I Llanfynydd. Gosod Blodau – 6ed Nia Price, C.Ff.I Llanymddyfri. Ceginio – 1af Gwenno Roberts & Ffion Raymond, C.Ff.I Llanfynydd. Crefft – 1af Richard Davies, C.Ff.I Llandeilo. Cneifio Defaid – 8fed Alun Thomas, C.Ff.I Llanfynydd & Mark Harries, C.Ff.I Llandeilo. Trin Gwlân – 6ed Manon Johnston, C.Ff.I Dyffryn Cothi. Canu Unigol – 3ydd Non Roberts, C.Ff.I Llangadog. Canu Grŵp – 4ydd C.Ff.I Llanllwni. Dawnsio – 9fed C.Ff.I Cwmann. Dylunio a Chreu Barcud – 5ed Catherine Griffiths, Natasha Jones & Aled Owens, C.Ff.I San Clêr. Ras Gyfnawid Berfeydd â Thema Llu Awyr Brenhinol – 8fed C.Ff.I Capel Iwan. Barnu Stoc Gwartheg Holstein – Dan 26 – 1af Rhys Jones, C.Ff.I Llannon. Dan 21 – 4ydd Jack Davies, C.Ff.I Llangadog. Dan 18 – 5ed Rosie Davies, C.Ff.I Llannon. Dan 16 – 1af Anwen Thomas, C.Ff.I San Pedr. 3ydd fel Tîm. Cystadleuaeth Gwisgo Fyny – 1af Undeg Jones & Elin Williams, C.Ff.I Cwmann. Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig – Dan 26 – 4ydd Sara Non Thomas, C.Ff.I Llanfynydd. Dan 21 – 1af Mark Harries, C.Ff.I Llandeilo. Dan 18 – 4ydd Tomos Griffiths, C.Ff.I San Ishmael. Dan 16 – 2ail Iestyn Richards, C.Ff.I San Ishmael. 1af fel Tîm. Hyrwyddo Eich Clwb – 11fed C.Ff.I Cynwyl Elfed. Tynnu'r Gelyn Bechgyn – 3ydd C.Ff.I San Clêr. Tynnu'r Gelyn Merched – 5ed C.Ff.I Llanymddyfri. Tynnu'r Gelyn Iau – 3ydd C.Ff.I Llanddarog. Ar y Newyddion – 4ydd Telor Dyer, Menna Davies & Carys Hughes, C.Ff.I Llanymddyfri. Gwaith Coed – 4ydd Iestyn Owen & Owen Phillips, C.Ff.I Capel Dewi. Gêm y Cenedlaethau – 5ed Owen Davies & Alex Lewis, C.Ff.I Dyffryn Cothi. Barnu Moch Cymreig – Dan 26 – 11fed Aled Jones, C.Ff.I San Pedr. Dan 21 – 8fed William Griffiths, C.Ff.I San Clêr. Dan 18 – 3ydd Tomos Griffiths, C.Ff.I San Ishmael. Dan 16 – 2ail Steffan Jones, C.Ff.I Llanelli. 5ed fel Tîm. Band Ailgylchu – 3ydd C.Ff.I San Clêr. Rygbi 7 Bob Ochr – 5ed Tîm C.Ff.I Sir Gâr. Palet Wedi Ei Ailgylchu – 4ydd Celt Edwards & Ioan Rees Lewis, C.Ff.I Capel Iwan.

Fe ddaeth C.Ff.I Sir Gâr yn 2ail yn gyfan gwbl yn y Barnu Stoc gyda C.Ff.I Ceredigion yn 1af a C.Ff.I Sir Benfro a C.Ff.I Brycheiniog yn 3ydd.

Ar ôl wythnos hwylus o gystadlu fe ddaeth Sir Gâr yn 4ydd. C.Ff.I Ceredigion a gipiodd y wobr 1af eto eleni gyda C.Ff.I Sir Benfro yn 2ail C.Ff.I Maesyfed yn 3ydd.

Llongyfarchiadau a diolch i'r holl aelodau am eu holl waith caled ac ymroddiad tuag at y paratoi a'r cystadlu ac mae ein diolch hefyd i'r arweinwyr a hyfforddwyr am eu holl gefnogaeth ac amser i helpu a chynorthwyo ein haelodau.

C.Ff.I. Ceredigion

Mae'r mis diwethaf wedi bod yn goron ar flwyddyn brysur o gystadlu a mwynhau gyda'r CFfI. Dyma be' fu hanes CFfI Ceredigion yn ystod y mis diwethaf.

Alaw yn dod i'r brig

Llongyfarchiadau i Alaw Mair Jones o glwb Felinfach ar gael ei choron yn Aelod Iau y flwyddyn dros Gymru a Lloegr yn Stafford. Gwnaeth Alaw blesio'r beirniaid yn fawr wrth gystadlu yn erbyn aelodau ar draws Lloegr. Pob dymuniad da i ti Alaw ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rhagor o lwyddiant yn Stafford

Mi ddaeth CFfI Llanwenog i'r brig dros Gymru a Lloegr yn y gystadleuaeth CFfI byw. Bu Bleddyn Thomas, Felinfach yn cystadlu yn y gystadleuaeth saethu colomennod clai. Yn dilyn llwyddiant yng nghystadleuaeth chwaraeon Cymru, bu Llanddewi Brefi a Thregaron yn cystadlu yn y dodgeball, a Throedryaur yn yr hoci cymysg. Ceredigion yn amlwg yn gadael ei stamp yn Stafford!

Athletau'r sir

Llanwenog oedd y clwb a wnaeth redeg, taflu a neidio orau yn atletau'r sir eleni, gyda Felinfach yn ail a Llanddewi Brefi yn 3ydd. Troedryaur oedd y clwb â'r marciau uchaf ar draws yr atletau a chwaraeon y sir.

It's coming home

Nid cwpan y byd, ond y rygbi 7 bob ochr oedd y twrnament cystadleuol a gafodd ei gynnal ddiwedd Mehefin. Yng nghystadleuaeth y bechgyn, Troedryaur aeth â'r fedal aur, a merched Mydroilyn ddaeth i'r brig yn adran

y merched. Dewiswyd carfan o chwaraewyr go gyfer a thîm Ceredigion yn y sioe fawr, ond cawsant eu curo yn y grŵp yn dilyn perfformiadau addawol iawn.

Y Cardis yn cael sioe i'w chofio



Heidiodd aelodau CFfI Cymru i Lanelwedd wythnos y sioe am gwpl o ddiwrnodau o gymdeithasu a chystadlu. Daeth CFfI Ceredigion i'r brig eleni eto fel y ffederasiwn â'r nifer uchaf o bwyntiau – 140 pwynt.

Arddangosfa'r ffederasiwn – Trisant, 1af. **Cneifio** – Steffan Jenkins, Llanwenog yn 1af dan 26. Rhys Douglas, Bro'r Dderi yn 2il dan 21. Tîm Ceredigion yn 1af.



Gosod blodau – Cari Davies, Tregaron yn 1af. **Canu** – Beca Williams, Talybont yn 3ydd fel unigolyn. Criw Caerwedros yn 2il fel grŵp. Ceredigion yn 2il fel tîm. **Dylunio barcud** – Caerwedros yn 6ed. **Trin gwlan** – Llŷr Evans o Drisant yn 6ed. **Arddangosfa'r Prif gylch** – Talybont yn 4ydd. **Ceginio** – Aeron Gwynne a Calvin Hunt o Langeitho yn 2il. **Dawnsio** – Tregaron yn 1af. **Gwisgo i fyny** – Elin Rattray, Iestyn Thomas a Trystan Leyshon o Drisant yn 2il. **Barnu moch** – Llŷr Davies o Langwyrton yn 5ed dan 16. Ifan Davies o Landdeiniol yn 1af dan 18. Eiry Williams o Langwyrton yn 1af dan 21. Gethin Hughes o Landdeiniol yn 2il dan 26. Tîm Ceredigion yn 1af. **Ar y newyddion** – Elen Jones, Meirian a Meleri Morgan o Langeitho yn 2il. **Crefft** – Siwan George o Ledrod yn 2il. **Cystadleuaeth yr aelodau** – 1af. **Hyrwyddo Clwb** – Mydroilyn yn 1af. **Barnu defaid** – Hedd Dafydd o Langeitho yn 3ydd dan 16. Gwion Morgan o Benparc yn 7fed dan 18. Gwenno Evans o Dalybont yn 9fed dan 21. Dewi Jenkins o Dalybont yn 7fed. Tîm Ceredigion yn 5ed. **Band ailgylchu** – Bro'r Dderi yn 5ed. **Barnu gwartheg godro** – Ieuan James o Droedryaur yn 2il dan 16. Beca Jenkins o Bontsian yn 1af dan 18. Aron Dafydd o Fro'r Dderi yn 2il dan 21. Dafydd James o Droedryaur yn 2il dan 26. Tîm Ceredigion yn 1af. Gwerth nodi hefyd y bu Beca yn rhoi tips barnu stoc i Theresa May yng nghanol y beirniadu – nid pawb sy'n gallu dweud eu bod nhw wedi dysgu'r Prif Weinidog sut i farnu stoc! Marciau uchaf yng nghystadleuaethau barnu stoc y sioe – Ceredigion. **Gwaith Coed** – Gareth Harries a Llion Thomas o Landdeiniol yn 1af. **Ailgylchu palet** – Dilwyn Harries ac Iwan Morris o Landdeiniol yn 1af. **Generation game** – Caryl Morris a Dewi Davies o Landdeiniol yn 8fed. **Adran tynnu rhaff** – Ceredigion yn 8fed.

Cofiwch gymryd golwg ar wefan newydd y sir <https://yfc-eredigion.org.uk/> sydd wedi ei greu gan aelodau'r sir ac yn cynnwys fideo o uchafbwyntiau'r rali.

Dyddiadau i'ch dyddiadur

5ed o Fedi

8fed o Fedi

21 – 22ain o Fedi

Pwyllgorau'r sir.

Gig ola'r ha', Pafiliwn Ponrhydfendigaid.

Diwrnod allan ar y fferm, Llanerchaeron.

Cwmsychpant

Ymddiheuriad

Yn rhifyn diwethaf 'CLONC' wrth gydymdeimlo gyda theulu'r diweddar Roy Rees, Pantronnen gadawyd enw brawd Roy, sef Huw, o'r rhestr. Ymddiheuriadau mawr am hyn – nid oedd o fwriad o gwbl.

Gwellhad Buan

Ar ddechrau mis Gorffennaf cafodd Mary Jones, Penrheol glun newydd yn ysbyty Werndale. Hyfryd yw deall bod Mary lawer yn well erbyn hyn ac o gwmpas.

Noson Barbeciw

Nos Wener olaf mis Gorffennaf fe gynhaliodd Capel y Cwm farbeciw. Nid oedd y tywydd yn ffafril iawn ond fe gafwyd noson arbennig yn cymdeithasu a bwyta eitemau blasus iawn a'r plantos allan yn chwarae ar y lawnt, fel mae plant wedi gwneud yn y Cwm ar hyd y blynyddoedd. Tynnwyd raffl fechan ar y noson a diolchwyd i bawb am noson hyfryd iawn gan y gweinidog, y Parch. Wyn Thomas.

Dathlu Priodas Aur ac Arian

Ddechrau mis Awst, ar yr un dyddiad yn union, dathlodd John a Mary Jones, Penrheol eu Priodas Aur ac Arthur a Linda, Craigle eu Priodas Arian. Mae Mary a Linda yn ysgrifennydd a thrysorydd Capel y Cwm – rhyfedd bod y ddwy swyddog yn dathlu yr un diwrnod! Llongyfarchiadau mawr i chi eich pedwar.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Penrheol ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am eu consym amdani tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Gwerthfawroga'r cyfarchion lu a dderbyniodd. Diolch.

Hefyd dymuna John a Mary, Penrheol ddiolch o waelod calon i bawb o bob man am y llu cardiau, y rhoddion a'r holl ddymuniadau gorau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ddechrau mis Awst.

Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2018

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen ar ddydd Sadwrn, Awst y 11eg trwy garedigrwydd Mrs. Ella a Mr. Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddianus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at Diabetes Cymru. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei ddefnyddio i wneud mwy o waith ymchwil i'r maes.

Dechreuodd diwrnod y sioe yn gynnar gyda'r treialon a bu'r cŵn defaid yn rhedeg o'r bore bach tan yr hwyr. Unwaith eto eleni roedd y babell yn orlawn o gynnyrch amrywiol ac roedd y cyfan o safon uchel. Cynhaliwyd mabolgampau i'r plant yn y bore ac mi wnaeth nifer helaeth ennill rhubanau. Yn ogystal cafwyd arddangosfa o hen beiriannau a oedd yn werth i'w gweld.

Ein llywydd eleni oedd Mrs Betty Rees, 1 Porth Terrace, Llandysul a braf iawn oedd cael ei chwmmi trwy gydol y dydd. Siaradodd y Parchedig Beth Davies ar ei rhan a soniodd am ei hatgofion fel plentyn o fyw yn yr ardal. Mawr hefyd yw ein diolch iddi am ei rhodd haelionus i'r coffrau.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw. Unwaith yn rhagor gwerthwyd amrywiaeth helaeth o bethau a gyfrannwyd gan gefnogwyr y sioe a chodwyd arian sylweddol i'r elusen.

I gloi'r diwrnod penigamp, cafwyd adloniant yng nghwmni Dai Hands a'i ddisgo. Braf oedd gweld pawb o bob oed yn dawnsio i'r disgo tan oriau mân y bore. Unwaith eto eleni cynhaliwyd sesiwn ddisgo i'r plant yn gyntaf ac yna cystadleuaeth "Taclo'r Tasgau". Cystadleuaeth i dimau o bedwar aelod oedd "Taclo'r Tasgau" a gwelwyd nifer fawr o dimau yn rhoi tro ar dacro'r pedair tasg a roddwyd iddynt ar y noson.

Cafwyd llawer o hwyl gyda'r babell dan ei sang yn gweiddi a chefnogi eu timoedd. Enillwyr y tasgau eleni oedd "Tim y ddau frawd a'r ddwy chwaer" sef Meinir Davies, Ffion Jenkins, Steffan Jenkins a Carwyn Davies. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Dyma restr o enillwyr y dydd: Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Agored - Idris Morgan, Trefenter. Agored De Cymru - Celfyn Braud, Llansawddog. Gwinoedd - Megan Richards, Aberaeron. Cyffeithiau - Sirian Davies, Cwrtnewydd. Coginio - Wendy Davies, Penffordd. Gwaith Llaw - Eluned Davies, Dihewyd. Crefft - Carwyn Davies, Penffordd. Ffyn - Keith Allen, Carew, Llanelli. Ffotograffiaeth - Marian Rees, Penffordd. Arlunio Plant Bl. 2 ac o dan - Efa Riddell, Ysgol Talgarreg. Bl. 3 a 4 - Madi Potter, Ysgol Dyffryn Cledlyn. Bl. 5 a 6 - Swyn Tomos, Ysgol Dyffryn Cledlyn.

Adran Plant Dan 8 - Wil Ifan Williams, Cwmsychpant. 9 ac o dan 12 - Elen Morgan, Drefach. 12 ac o dan 17 - Meryl Evans, Talgarreg. Adran Blodau - Andrew Davies, Llandysul. Celfyddyd Blodau - Victor Edwards, Rhydowen. Cynnyrch Gardd - Elliw Grug Davies, Drefach. Adran Geffylau Pencampwr yr Adran Geffylau - Sioned Davies, Cwmsychpant. Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant - Martha Silvestri-Jones, Talgarreg.

Adran Ddefaid - Pencampwr Croesfrid - Morgans, Glwydwrn. Taleb gwerth £25 - Anwen Jones, New Inn

Dymuna pwyllgor Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i'r beirniaid, y stiwardiaid, y noddwyr a phawb arall am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniwyd er mwyn sicrhau sioe lwyddiannus arall.



Y Pencampwr rhyng-frid yn Adran y Defaid, dafad flwydd Llanwenog, eiddo Elfyn Morgan, Gorsgoch.



Pencampwr Adran y Ceffylau, caseg Adran A, eiddo Sioned Davies, Cwmsychpant.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



2 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan
T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com f.dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbedr
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-briis
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Y Prif Swyddogion 2018/19 yw Siencyn Jones a Max Parry, gyda'u dirprwyon bob ochr iddynt.

O'r chwith - Cari Haf Jones, Mari Elen Lewis, Cyffin Thomas, Siencyn Jones, Max Parry, Osian Jones a Cerys Pollock.

Canlyniadau Safon Uwch Gwych Ysgol Bro Pedr

Roedd disgyblion Ysgol Bro Pedr yn wên o glust i glust ar ddiwrnod y canlyniadau Safon Uwch eleni gydag 86% o'r graddau a ddyfarnwyd i ddisgyblion a oedd yn astudio o leiaf ddau Lefel A yn raddau A*-C, 67% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A* - B a 35.3% o'r graddau a ddyfarnwyd yn raddau A neu A*.

Dyma rai o'r canlyniadau gorau: Alpha Evans, Prif Ferch, a gafodd 4A* ac 1A; Ffion Evans a gafodd 3A* ac 1B, Jack Hulme, Hanna James, Briallt Williams ac Alice Sargent a gafodd 2A* a 2A a Robert Jenkins a gafodd 2A a 3B, i enwi ond rhai o'r disgyblion.

Cafodd bron pob disgybl fynediad i'w dewis cyntaf o brifysgol a dywedodd Jane Wyn, Pennaeth, "Mae hyn yn wych, yn enwedig pan fod rhywun yn ystyried natur gystadleuol y cyrsiau Prifysgolion Grŵp Russell yma. Fel ysgol, rydym yn awyddus iawn i gefnogi ein disgyblion trwy gydol y broses UCAS ac mae disgyblion yn derbyn cymorth un-i-un er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y dewisiadau gorau posibl.

"Rydym yn falch iawn o gyflawniad pob disgybl eleni eto. Mae eu llwyddiant yn adlewyrchu eu gwaith caled, ymroddiad eu hathrawon a chefnogaeth eu teuluoedd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddymuno pob llwyddiant i'r disgyblion ym mhennod nesaf eu bywydau, boed hynny yn y byd gwaith neu'r brifysgol. Fel ysgol, ein gobaith ni yma yn Ysgol Bro Pedr yw ein bod wedi gallu sicrhau bod ein disgyblion â'r holl sgiliau angenrheidiol er mwyn goresgyn a ffynnu mewn byd cystadleuol tu hwnt."

Canlyniadau TGAU, Ysgol Bro Pedr

Roedd yna lawer i'w ddathlu eleni eto wrth i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr gasglu eu canlyniadau TGAU. Cafwyd rhai o'r canlyniadau gorau gan Lucy Hill, 13 A* a 2 A, ac Eleri James a gafodd 11 A* a 2 A. Cafwyd llwyddiant ysgubol gan y disgyblion canlynol hefyd: Lisa Evans (canlyniadau yn cynnwys 13 A*/A), Elin Davies (canlyniadau yn cynnwys 12 A*/A), Amber Davies, Heledd Jenkins a Madeleine Smith a gafodd canlyniadau oedd yn cynnwys 11 A*/A, Carys Evans (canlyniadau yn cynnwys 10 A*/A), Gethin Bevan, Emma Herbert, Owen Schroder a Theo Teasdale a gafodd canlyniadau oedd yn cynnwys 9 A*/A.

Dywedodd Jane Wyn, Pennaeth, "Unwaith eto eleni rydym yn ymhyfrydu yn llwyddiant pob disgybl. Hoffwn ddymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol wrth i nifer ohonynt ddychwelyd i'r chweched yn Ysgol Bro Pedr a thro bo eraill yn mynd i golegau neu'r byd gwaith. Mae llwyddiant y disgyblion yn adlewyrchu eu gwaith caled hwy a'r arweiniad mae'r athrawon wedi ei gynnig iddynt. Fel Ysgol, rydym hefyd yn ddiolchgar i'r rhieni a'r Llywodraethwyr am eu cefnogaeth barhaus".



Grace Lambert, Ysgol Bro Pedr, yn ennill cwpan Cyfeillgarwch Huw ac Elizabeth Jenkins.



Grace Lambert a Rhun Davies, Ysgol Bro Pedr, yn derbyn tystysgrifau mewn seremoni i ddiolch iddynt am eu gwaith fel Llysgenhadon Chwaraeon yr Ysgol.



Cerddorfa Ysgol Bro Pedr yn perfformio dan arweinyddiaeth Mrs Helen Williams a Mrs Pauline Jones yn cyfeilio.

Ysgol Bro Pedr Iau

Llongyfarchiadau mawr i Grace Lambert ar dderbyn Cwpan Cyfeillgarwch i'r disgybl ym mlwyddyn 6 sydd wedi dangos caredigrwydd a chefnogaeth at eraill, yn rhoddedig gan ein cyn brifathro a'i wraig, Huw ac Elizabeth Jenkins. Da iawn ti, Grace a phob dymuniad da i ti a'r disgyblion i gyd wrth i chi ddechrau ym mlwyddyn 7. Cafodd disgyblion blwyddyn 6 y cyfle i gwblhau cwrs beicio diogel a chawsant barti i ddathlu diwedd eu cyfnod yn y campws cynradd. Diolch i athrawon a phlant blwyddyn 6 am y gwasanaeth hyfryd a baratowyd ganddynt.

Derbyniodd Rhun Davies a Grace Lambert dystysgrifau mewn seremoni arbennig am eu gwaith clodwiw fel Llysgenhadon Chwaraeon Efydd yr ysgol am y flwyddyn a fu. Da iawn chi a diolch am eich gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Pleser oedd cael gwranddo ar gerddorfa'r ysgol yn perfformio dan arweinyddiaeth Mrs Helen Williams a Mrs Pauline Jones yn cyfeilio. Diolch o galon i Helen a Pauline am roi o'u hamser i'r gerddorfa ac i'r athrawon teithiol i gyd am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn.

Derbyniodd yr ysgol swm o arian sylweddol o gronfa RR Davies a diolch yn fawr iawn i'r Ymddiriedolaeth am eu haelioni. Defnyddiwyd yr arian i archebu offer technegol a Polytunnel ar gyfer gardd yr ysgol.

Hyfryd oedd cael gwerthu cynnyrch o ardd yr ysgol ar ddiwedd y tymor a diolch i Mr a Mrs Pink am eu harweiniad. Gyda thristwch y ffarweliwn gyda rhai aelodau o staff a diolchwn iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol, sef Michelle Hargreaves a Nia Jones o'r gegin, Elizabeth Edwards aelod o'r tîm gweinyddu a Nicola Jones Cynorthwy-ydd dosbarth sydd yn mynd i deithio tramor. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Bu nifer o'r disgyblion yn brysur yn cynrychioli'r ysgol mewn amryw o ddigwyddiadau dros wyliau'r haf a llongyfarchiadau iddynt i gyd. Roedd brenhines, morynion a gweision y Carnifal yn edrych yn smart iawn a diolch i'r staff a fu'n cynorthwyo gyda'r mabolgampau hefyd yng Ngharnifal Llamed.

Derbyniodd nifer o ddisgyblion wobrau am waith Celf yn Sioe Llamed - da iawn Fflur Meredith 1af Llawysgrifen bl 3 a 4, Maja Subotowitz 1af Llawysgrifen bl 5 a 6, Cerys Angharad 3ydd Llawysgrifen bl 3 a 4, Raees Cowles 3ydd am addurno plât, Julia Liecau 3ydd Llawysgrifen bl 1 a 2, Hari Morgan 2ail Llawysgrifen.

Ymfalchiwn fel ysgol yn llwyddiant ysgubol Cerys Angharad Jones sydd nid yn unig yn aelod o Gerddorfa Prydain, Corws Only Kids Aloud ac

Ysgol Bro Pedr

wedi derbyn ysgoloriaethau niferus am ganu'r delyn ond sydd yn ogystal wedi cipio'r wobr gyntaf ar yr unawd telyn o dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol a dod yn 3ydd yn y ddeuawd offerynnol agored a hithau ond yn ddeg oed. Arbennig, Cerys.

Dros ŵyl y banc hyfryd oedd gweld nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau ar lwyfan Eisteddfod Llambled a chael cryn lwyddiant. Da iawn chi, Tia Gilbert, Efa Lloyd Jones a Fflur Meredith o'r campws cynradd ac Ifan Meredith, Gruffydd Llwyd Dafydd, Ffion Davies, Sioned Davies, Elan Jones a pharti'r aelwyd o'r campws hŷn.

Cafodd disgyblion bl 3,4,5 a 6 gyfle i berfformio'r ddawns flodau yn seremoni Cadeirio a Choronï yn yr Eisteddfod a diolch yn fawr i Sally Saunders a Charlotte am eu cymorth ac i'r rhieni i gyd am gludo a helpu. Gwerthfawrogn hyn yn fawr. Gwnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog – Sara, Cerys Angharad, Maja, Charley, Amy, Ellie Maie, Fflur, Robyn, Matylda, Aalia, Alma, Kristal Leigh, Leah ac Alecia.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn adran Gelf a Chrefft yr eisteddfod:-

Fflur Meredith 1af Dylunio a Thechnoleg 1af Creu model, 2ail Penwisg, 3ydd Collage, 3ydd Gemwaith Khloe Jones 3ydd Celf Cyfrifiadurol Julia Liecau 2ail Celf Cyfrifiadurol Riley Davies 2ail Arlunio, Gabrys Wicha 1af Arlunio, Szymon Zak 3ydd Arlunio, Dyfan Hopkins 3ydd Arlunio, Tia Gilbert 2ail Arlunio Carter Jones 1af Arlunio, Rhodri Jones 1af Arlunio

Elliot Gbemisola 2ail Arlunio, Molly Williams 3ydd Arlunio, Hunor Hamvas 3ydd Dylunio a Thechnoleg Jack o Connell 2ail Dylunio a Thechnoleg, Sion Ifan Williams 2ail Model, Vanessa G 2ail Llawysgrifen, Sara K 1af Llawysgrifen Kevin Czaja 2ail Gemwaith, Cerys Angharad 1af Llawysgrifen

Derbyniodd yr ysgol £50 a chwpan am yr ysgol gynradd uchaf ei marciau.

Llwyddodd y sector hŷn hefyd i dderbyn £50 am yr ysgol uchaf ei marciau

yn yr Adran Gelf. Llongyfarchiadau i Manon Williams am gipio'r wobr arbennig ar gyfer y darn gwaith gorau yn yr Adran Gelf. Bu'r canlynol yn llwyddiannus:- Lisa Evans 2ail Tecstilïau Danny Jones 1af a 3ydd Ffotograffiaeth, Anna Gibbons 2ail Ffotograffiaeth, Niah Bouvet 3ydd Celf Cyfrifiadurol Chloe Jones 2ail Gwaith pren, metel, Elan Jones 2ail a 3ydd Arlunio 1af Graffiti, 1af Poster 2ail Celf Cyfrifiadurol Manon Williams 1af ac 2ail Dylunio Thechnoleg, Ifan Meredith 2ail Dylunio a Thechnoleg, 2ail Penwisg, 3ydd eitem o fetel/pren.

Diolch i swyddogion yr ysgol ac aelodau Aelwyd Llambled a fu'n cymryd rhan yn y seremoni ieuenticid yn Eisteddfod Llambled gan wneud eu gwaith yn raenus tu hwnt sef Hari, Alpha, Twm, Ffion, Manon, Ifan, Gruffydd ac Elan.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

**Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:**

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

**Hefyd yn Ystafell Weini gysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:**

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:


Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

SiaraDwyR Newydd!!!

COLOFN Y DYSGWYR gan Gwyneth Davies

CYMRÆG

Dysgu
Learn



Ar Draws

I Lawr

2. Builder

1. Gardener

4. Sailor

3. Driver

5. Doctor

6. Carpenter

7. Teacher (female)

8. Actor

9. Shopkeeper

10. Chef

11. Farmer

Cofiwch: un llythyren ydy – ‘dd’, ‘ch’, ‘th’, ‘ff’.

Helo bawb. Dyma dasg arall i chi.

Croesair: Gwaith

Mae Benita Studman-Badillo yn byw yn ardal Llanfair Clydogau ac am rannu ei thaith ddysgu Cymraeg â chi:

‘Dechreuais i fy nhaith ddysgu pan symudon ni i fyw i Geredigion yn 2001. Yn y cychwyn roedd rhaid i fi ddysgu ar lein trwy gwrs am ddim gyda Phrifysgol Llanbed. Roedd hwn yn ddiddorol iawn i fi gan mai Sbaeneg yw fy iaith gyntaf, felly dw i wedi arfer dysgu ar y cyfrifiadurol. Ond pan oedd y plant yn yr ysgol, ymunais i â'r dosbarth lleol achos roedd yn gyfle da i gwrdd â phobl yr ardal. Ar ôl tua 7 mlynedd o wersi a CYD (o dro i dro) ces i ddigon o hyder a sefais arholiadau sylfaen a chanolradd yr un flwyddyn. Roedd yn brofiad da iawn a mwynheais i baratoi tuag atyn nhw. Wnes i'n dda iawn a derbyniais fy nhystysgrif (safon rhagoriaeth) yn Eisteddfod Genedlaethol, Llanelli, 2014. Dyna oedd fy uchafbwyntiau yn fy nhaith i ddysgu'r iaith.

Yn bersonol dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn i ddysgu'r iaith achos mae'n bosib dysgu am ddiwylliant a hanes y wlad, y dre a'r bobl hefyd. Bob dydd dw i'n darllen gwefan BBC ac yn wythnosol yn darllen ‘Golwg’. Hefyd bob dydd dw i'n gwrandao ar Radio Cymru ac yn trio ei ddeall. Hefyd dw i'n pori'r we i ddysgu sut i ddweud pethau mewn ffyrdd sy'n fwy naturiol. Mae'n amlwg i fi fy mod i'n gallu deall mwy na siarad. Achos fy mod i'n byw yn lleol dw i'n nabod y Cymry sy'n barod i helpu fi fel dysgwr. Felly dw i'n gwybod pwy fydd yn ddigon amyneddgar i roi siawns i fi i siarad. Dw i'n lwcus iawn achos nawr dw i'n gallu ail-ddechrau mynychu dosbarth eto yn lleol. Dw i wrth fy modd yn cael cyfle eto i wrando ar Gymraeg yr athrawes a Chymraeg fy nghyd-ddysgwyr. Rydyn ni'n gwneud ymdrech fawr i fod yna bob wythnos ac rydyn ni'n mwynhau'r her’.

Diolch i chi Benita. Mae eich hanes yn ddiddorol iawn. Daliwch ati a phob lwc!

Atebion y Croesair

Ar Draws: 2. Adeiladydd; 4. Morwr; 5. Meddyg; 7. Athrawes; 9. Siopwr; 11. Ffermwr.

I Lawr: 1. Garddwr; 3. Gyrwr; 6. Saer; 8. Actor; 10. Cogydd.

Enw: **Caryl Mair Herrick**
Oed: 30
Pentref: Llanbedr Pont Steffan
Gwaith: Trin Gwallt
Partner: Ben Herrick
Teulu: Dad a Mam (Aeron ac Ann Cwmhendryd), Berwyn fy mrawd a'i deulu. Ac, wrth gwrs, Gwenno ac Elis, fy mhlant.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae lawr wrth yr afon gyferbyn. Cwca pice ar y maen a phancws 'da Mam- gu, heb syltanas wrth gwrs. Ych!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Magic Roundabout, Wil Cwac Cwac, Wallace and Gromit... ac obsesiwn 'da'r ffilm 101 Dalmations.

Yr eiliad â'r embaras mwyaf.
Trio perfformio mewn band or enw 'Touch' pan yn 14.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn gwrtais at bawb ac i helpu, ac i alw y rhai sy'n hŷn yn 'chi', er, pan ma rhai 'ifanc' yn galw fi'n chi, dwi ddim yn hapus iawn!

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Paid hastu mewn bywyd, o'n i'n methu aros i adel ysgol a dachre gyrfa. Erbyn hyn, dwi'n deall mai ysgol oedd yr amser rhwydda mewn bywyd!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
B'Witched a Billie Piper (prynys i'r ddou 'da arian pen-blwydd)

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Trin Gwallt a Harddwch. Dal heb fynd mlan i'r rhan harddwch, ond gobeitho gwneud cyn hir. Cal ambell i bwl o moyn mynd yn fydwraig, and ddim yn ffansi'r gwaith coleg!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Wedi cal sawl un mewn bywyd, ond dim byd sydd wedi gadel marc!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Gofyn i fi ei briodi mewn toilets yn yr Angel yn Aberystwyth... na'r man tawela gallodd e ffono Dad i ofyn am ganiatad yn orie mân y bore ar Nos Galan! Hefyd, sefyll mas yn y glaw 'da blodau a modrwy ddyweddio rhyw wthnos ar ôl 'ny! Ma'r rhamant wedi mynd 'down hill' ers 'ny!



Beth oedd y frawddeg fachu orau a ddefnyddiaist erioed, neu'r

frawddeg fachu a glywaist?
Would you like to see the gun show? – Y peth oedd, o'n i'n itha gullible, a meddwl fod e'n gwestiwn genuine.

Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?
Adre o flan tân 'da Ben a'r plant, neu mas yn ganol unman yn cerdded.

Pwy yw dy arwyr?
Mam-gu. Y fenyw fwya caredig, gweithgar ac amyneddgar erioed. Os fydda i hanner y person oedd hi, fyddai'n browd.

Beth yw dy arbenigedd?
Cacennau pen-blwydd y plant.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Cwrdd â phobl newydd bob dydd, a gwneud i bobl deimlo'n dda.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Hm, trial ailgylchu fel y dylen. Wedi dachre neud bricks i'r tân mas o bapur wedi briwo.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Rhywun sy'n meddwl fod nhw'n well na pawb arall!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Yn ddelfrydol - dannedd newydd! Yn realistig - talu off peth o forgaiss

y tŷ.

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Heddi wrth wyllo ffilm 'Coco'

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Nos Sul ar ôl cal 3 G&T! Ie, light weight!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Hynny yn digwydd pob dydd mewn un ffor ne'r llall, ma' plant go smala 'ma!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Ar lawr ystafell fyfyrio fy ffrind Elin. Oedd sawl corff yn y stafell i gyd! Dal ddim yn siŵr pwy!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cymeryd y cam o fynd yn self employed.

Ac yn bersonol?
Heblaw am enedigaeath y plant, croesi llinell Haner Marathon The Great Welsh lawr yn Llanelli ym mis Ebrill. O'n i byth yn meddwl gallen i neud y fath beth!

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Ddim trafeulu cyn dachre ar y tŷ.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
I drin pobl fel y licet ti gal dy drin.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cal y plant.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Vauxall Insignia

Beth yw dy hoff wisg?
Pyjamas!

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Harry Potter, o leia galle fe ddefnyddio hud i gal ni adre!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian.

Beth yw dy hoff arogl?
Cino rhost yn cwca.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Poppy, Ozzy, Shanco a Toby (cŵn a chathod) a lluniau.

Beth fyddet yn ei wneud pe na byddet yn gwneud y gwaith hwn?
Harddwch!

Ar beth y gwnest ti orwario fwyaf?
Pen-wythos hir yn Llunden ar gyfer 30th y gŵr dros Calan Gaeaf!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Bywyd!

Y gwyliau gorau?
Atgofion da o fynd ar wyliau yn y garafan 'da Cottage. Fydde David Heath lan ar y ffarm tra bo fi'n joio lawr yn Tenby! Heb fod dramor lawer. Mynd i Blackpool i weld y golau am ben-wythnos 'da Mam-gu a Aneurin Tynffynnon yn dod nôl i'r meddwl 'fyd! Unrhyw wyliau i hala amser 'da'r teulu!

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Cyradd top yr Wyddfa yn un, yn bendant. Ma pob rhan o Gymru yn brydferth!

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Awstralia, New Zealand a Affrica.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Agor Salon fy hunan (work in progress).

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Gweud nos da wrth Ben.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal yn fyw ac iach, mewn gobeth!

Testun Cyfrinachau mis nesaf:
John Heath, Llambod



Bu misoedd yr haf yn rhai prysur i Glwb Sarn Helen eleni eto ac ar y lefel genedlaethol efallai mai Ras Ryngwladol yr Wyddfa oedd y prif ddigwyddiad. Dim ond un o aelodau'r Clwb fu'n ddigon dewr i wynebu'r daith i fyny at gopa niwlog yr Wyddfa ac i lawr ar yr 21ain o Orffennaf eleni, sef Dee Jolly, ond llwyddodd hi i gyrraedd y llinell orffen yn Llanberis mewn 94 munud a 45 eiliad. - rhyw bedair munud yn gynt na'i hymdrech flaenorol hi yn y ras heriol hon - gan orffen yn 18fed ymhlith y menywod ac yn 4ydd yn nosbarth y menywod dan 35 oed. Eidalwr, Alberto Vender, oedd y dyn buddugol eleni (66.41) ond Cymraes, Bronwen Jenkinson o Glwb Eryri, oedd y fenyw gyntaf i orffen (80.42).

Yr oedd ras heol 10 cilometr Rhydaman ar yr 8fed o Orffennaf hefyd yn bencampwriaeth Cymru eleni a gwnaeth Caryl Wyn Davies yn ardderchog i ddod yn ail fenyw dan 35 oed mewn 43 munud a 10 eiliad gyda Sion Price yntau'n rhagori wrth ddod yn 5ed o'r dynion mewn 35 munud ac 20 eiliad dros gwrs sy'n cynnwys ambell i ddringfa gostus. Cafwyd ymdrechion da hefyd gan George Eadon (42.04) a David Thomas (48.52.)



Mae ras 6 milltir Felinfach yn un o rasys blynyddol y Clwb ers llawer dydd ond prin iddi gael ei chynnal ar noson fwy chwyslyd o gynnes na hon ar y 29ain o Fehefin eleni. Er gwaethaf hynny aeth Sion Price, aelod o'r Clwb a brodor o Felinfach, rownd y cwrs allan i Dalsarn ac Abermeurig ac yn ôl mewn 33 munud ac 1 eiliad i ennill y ras o flaen Phil Morris o glwb Aberhonddu. Yr oedd hi hefyd yn noson i'w chofio i un o sefydlwyr Clwb Sarn Helen, Dawn Kenwright, gan mai hi oedd y fenyw gyntaf i orffen (46.57) ychydig o flaen ei chyd-aelod Delyth Crimes (48.53) -hithau'r 3edd ymhlith y menywod. Cafwyd perfformiadau da hefyd gan lawer o redwyr y clwb - Dylan Lewis yn 5ed (34.24) ychydig o flaen Thomas Willoughby yn 9fed (37.03,) Steven Holmes yn 1af o'r dynion dros 40 (37.09,) Taran Samuel (37.16,) George Eadon (39.15,) a Carwyn Davies yn 3ydd o'r dynion dros 40. Aeth y cyntaf a'r ail yn nosbarth y dynion dros 50 i Glyn Price (38.19) a Richard Marks (39.29.) Ymhlith menywod y clwb daeth Sian Roberts Jones (50.16) a Pamela Carter (52.13) yn gyntaf ac ail dros 35 oed gydag Enfys Needham Jones yn 3ydd dros 45 oed. Eleni eto yr oedd tair ras ieuenctid hefyd. Aeth nifer o wobrau i aelodau'r clwb yn y ras 3000 metr - Jack Caulkett (11.26) a Rhys Williams (11.31) yn gyntaf ac ail ac Alaw Jones (14.29) a Violet Caulkett (15.13) yn ail a thrydydd o'r merched y tu ôl i Jasmine Jones o Glwb Athletau Aberystwyth. Enillwyd y ras 1500 metr gan Jack Lynnock o Glwb Athletau Caerfyrddin ond cafwyd ymdrechion addawol gan Tudur Llwyd Jones, Sion Jones a Tomos Green ymhlith bechgyn Sarn Helen, a Non Crimes (3ydd ferch) a Maddie Caulkett ymhlith y merched. Yr oedd 47 o redwyr dan 8 oed yn y ras 800 metr a William Coles (3.10) o Ysgol Rhys Pritchard a Jayce Jones (3.24) o Felinfach oedd y cyntaf a'r ail - amser disglair i blant o'r oedran hyn. Nid y cyntaf yw'r dewraf o angenrheidrwydd - yr oedd pob cystadleuydd ym mhob ras yn haeddu cael eu llongyfarch ar y fath noson.

Y mae ras heol 5 milltir Cwmann bellach yn un o rasys blynyddol y clwb ac ar y 6ed o Orffennaf yr oedd 51 yn cystadlu yn ras yr oedolion, 26 ohonynt yn rhedwyr Sarn Helen, ond Rob Davies o Rydaman oedd y cyntaf i orffen mewn 29 munud a 13 eiliad, rhyw 25 eiliad o flaen Ken Caulkett. Daeth Jason Samuel (31.37) yn 3ydd dan 40 oed. Glyn Price (31.09) oedd y dyn cyntaf dros 50 a David Thomas, hefyd o glwb Sarn Helen, yn 3ydd yn y dosbarth hwnnw. Carwyn Davies (32.15) oedd yr ail ddyn dros 40 a Steven

Holmes (33.23) oedd y 3ydd. Dee Jolly (37.22) aeth â gwobr y menywod ond yr oedd gwobrau i rai o fenywod eraill y clwb gydag Eleri Rivers (38.27) yn 1af dros 35 oed a Delyth Crimes (41.03) yn 1af dros 45. Hefyd daeth Pamela Carter a Heather Hughes yn ail a thrydydd dros 35 ac Enfys Needham Jones yn ail dros 45. Yn y ras ieuenctid 1500 metr Jack Caulkett (5 munud a 12 eiliad) Rhys Williams a Daniel Jones oedd y tri bachgen cyntaf ac Alaw Jones (6.50) oedd y ferch gyntaf. Yn y ras ieuenctid 800 metr Jake ac Esme Lynock o Glwb Athletau Caerfyrddin oedd y buddugwyr.

Prin yw'r rasys sy'n cael eu cynnal ar dywod ond y mae ras 10 cilometr traeth y Borth yn un ohon-ynt ac eleni ar y 10fed o Awst cafodd Caryl Wyn Davies fuddugoliaeth yn ras y menywod (42 munud a 35 eiliad) a gwnaeth Tomos Morgans (39.45,) un o aelodau ifanc addawol y clwb, yn ar-bennig i ennill dosbarth y dynion dan 20 ychydig o flaen ei gyd-aelod Aled Sion Jones (40.19.) Cafodd Meic Davies (40.27) ganlyniad da hefyd gan orffen yn 11eg allan o 138 o redwyr.

Eleni eto yng Ngorffennaf ac Awst fe gynhaliwyd y gyfres arferol a phoblogaidd o dair ras 5 ci-lometr yn Llandudoch dros gwrs sy'n croesi traeth Poppit ddwywaith. Aeth nifer o redwyr y clwb yno - cafodd Dylan Lewis fuddugoliaeth dda yn y ras gyntaf mewn 17 munud a 28 eiliad a gwnaeth Rhys Williams yn ardderchog i ennill y tair ras ieuenctid ac felly'r gyfres ieuenctid hefyd. Yn ogystal, Mark Rivers gafodd wobr y gyfres i ddynion dros 40 oed a'i gymar Eleri aeth â'r wobr gyfatebol i fenywod dros 35.



Wedi dod yn ail yn ras heol 10 cilometr Abercych ar yr 28ain o Fehefin ac yn ras heol 5 cilometr Tenovus yn Llanbed ar yr 22ain o Orffennaf fe barhaodd haf llwyddiannus Ken Caulkett yn ras he-ol 10 cilometr San Clêr wrth iddo ddod yn 3ydd allan o 166 o redwyr mewn 37 munud a 7 eiliad.

Am yr ail flwyddyn cynhaliwyd ras heol 5 milltir a hanner Cilycwm ar y 24ain o Awst ac aeth nifer o redwyr y clwb yno. Daeth Simon Hall yn 3ydd (34 munud a 5 eiliad,) Carwyn Davies yn 3ydd (34.11,) Mark Rivers (35.17) yn 6ed a Nigel Davies (35.59) yn 9fed. Eleri Rivers (40.22) oedd y 4edd fenyw i orffen. Yr oedd Steven a Jane Holmes, Tony Hall, Mitchell Readwin a Liz Pugh hefyd yn cynrychioli'r clwb yn y ras hon i godi arian i Ysbyty Llanynddych.

Yn ddiweddglu ar fisoedd yr Haf ac yn 41 mlwydd oed eleni, y mae Ras Beca ymhlith yr hynaf yng ngorllewin Cymru ac ar y 25ain o Awst yr oedd Dee Jolly yr un mor gystadleuol ar lechweddau'r Preselau ag yr oedd hi wrth ddringo'r Wyddfa rhyw ddeufis ynghynt gan ennill ras y menywod mewn 44 munud a 45 eiliad. Nid hi oedd unig enillydd y clwb gan i Felipe Jones (37.20) orffen o flaen pawb fel y gwnaeth nifer o weithiau o'r blaen yn y ras hon a chan i Glyn Price (40.50) ennill dosbarth y dynion dros 50 oed trwy orffen yn 3ydd yn y ras gyfan. Ac er i Simon Hall (43.08) redeg yng Nghilycwm ar y noson flaenorol yr oedd ganddo ddigon o egni ar ôl i ddod yn 3ydd o blith y dynion dan 40 oed yn Ffynnon-groes. Yn ogystal â Calvin Williams a Huw Price, braf oedd gweld llywydd y clwb, Lyn Rees, yn rhedeg y cwrs unigryw hwn unwaith eto.

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: PenBag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn

			1		9	5
3		7		5		
			2			3
	3	8			6	9
9	1				4	2
7		2			5	3
2			7			
			3		4	6
	8	6		9		

Swdocw Gorffennaf

Llongyfarchiadau i: Hugh Evans, Llanybydder, a diolch i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Llanybydder; Joan Stacey, Ffaldybrenin; John Bevan, Felinfach; Dai Jones, Alltbylaca; Megan Lewis, Cwmann; Bethan Williams, Llanybydder a Richard Evans, Olamrch.

8	9	3	6	4	7	2	5	1
6	4	1	8	5	2	7	3	9
5	7	2	9	1	3	4	8	6
2	8	5	4	3	9	6	1	7
7	6	9	5	8	1	3	4	2
1	3	4	7	2	6	5	9	8
3	2	8	1	6	4	9	7	5
4	5	7	2	9	8	1	6	3
9	1	6	3	7	5	8	2	4

Llangybi a Betws



Yn ennill y cil bencampwriaeth yn adran y Gwartheg Duon yn y Sioe Frenhinol roedd enillydd dosbarth 389, yn cael ei ddangos gan Eirian Lewis a Caryl Ann, Llangybi.



Pencampwr Rhyng-frid, dafad flwydd Beltex yn Sioe Llanddewi Brefi, eiddo Rhodri Pugh-Davies a Celine Jones, Llanddewi Brefi. Dyma'r ddafad hefyd a enillodd gwpan y Ddafad Orau, y Pencampwr Lleol a'r Bridiau Cyfandirol.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â nifer o deuluoedd a chysylltiadau a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

Adferiad

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu mewn gwaeledd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i bawb a fu yn llwyddiannus yn eu haroliadau. Dymunir i chi oll yrfa lewyrchus yn y dyfodol. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i bawb a fu yn llwyddiannus mewn nifer o sioeau amaethyddol yr ardal yn ddiweddar.

Merched y Wawr Y Dderi

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd brynhawn Mercher, Medi 19eg am ddau o'r gloch yng Nghrochendy Llanfair Clydogau. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cyrrddau Diolochgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon brynhawn Mercher, Medi 26ain am 2.00. Pregethwaig wadd yw y Parch Carys Ann. Croeso cynnes i bawb.

Hamdden

Bydd y cyfarfod cyntaf ar Hydref 5ed yn Ysgol Y Dderi am 2.00y.p. Y gŵr gwadd yw Mr Peter Cornelius. Croeso cynnes i bawb. Dewch am baned a sgwrs.

Digwyddiadau yn Llambod



Coronwyd brenhines carnifal Llambod, Sara Jones, gan y maer, y Cyng. Ann Bowen Morgan. Gyda hi (o'r chwith) mae Rhys Jones, Jade Waller, Vinny Jones a Gwenno Herrick.



Dewis o fwyd llysieuol yn Ffair Fwyd Llambod gan staff Mulberry Bush, Llanbed - Stella Teasdale, Josie Smith a Beryl Teasdale.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor - ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Rhifyn Hydref

yn y Siopau

4 Hydref

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

24 Medi



Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
 Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
 Maintenance • Breakdowns
 Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
 d.doughtyplumbing@gmail.com

safe OFTEC f

Lifestyle Kitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
 WELY WEDI'U FFITIO,
 ATEGOLION CEGIN,
 CYFARPAR TRYDAN,
 TEILS WAL A LLAWR
 SGWÂR Y FARCHNAD,
 LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E. JONES
 PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
 Mwy na yswiriant fferm.

Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
 Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
 21 Stryd Fawr, Llanbed
 Ceredigion, SA48 7BG
 Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
 Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
 "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

PHILIP JONES
 FINANCIAL SOLUTIONS
 Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
 & Busnes • Offer Amaethyddol
 ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
 Masnachol • Cyfleusterau
 Amddiffiniad Offer Newydd a
 Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
 07757 668339 / 01544 340562
 bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
 www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
 Financial Conduct Authority No FRN 690293



Llongyfarchiadau i Sian Elin Williams ar Radd Baglor yn y Celfyddydau mewn Drama ac Astudiaethau Theatr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu y diweddar Mr Thomas Herbert Morgans, Fferm Rhydowen a hunodd yn dawel Ddydd Iau, Gorffennaf 19eg yn 77 mlwydd oed ar ôl brwydro'n galed gydag afiechyd ers blwyddyn gron.

Cydymdeimlir hefyd â'i holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau eraill yn eu hiraeth.

Diolch

Dymuna Glenys, priod gariadus Herbert, ei blant a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn colli Herbert.

Rhoddion os dymunir tuag at Uned Chemotherapi, Ysbyty Glangwili trwy law Gwilym C. Price, Trefnwr Angladdau, 1-2 Stryd y Coleg, Llambled.

Eglwys St Padrig

Cynhelir Bore Coffi ar fore dydd Sadwrn, Medi 15fed yn yr Eglwys rhwng 10.30 - 12.00 ac fe'i agorir gan Mrs Beti Jacob.

Ar Nos Sul, Hydref 7fed am 6.00 cynhelir Diolchgarwch am y Cynhaef a'r Pregethwr gwadd fydd yr Hybarch Dorrien Davies, Archddiacon Caerfyrddin.

Ffair Ram
 Ar Gae Pentref Cwmann

8fed Medi 2018

Llywydd: Mrs Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen.
 Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen lla ac atyniadau eraill.

Arddangosfa Hen Beiriannau a Thait Hectarau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:
 Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511

Llanfair Clydogau

Sefydliad y Merched

I gloi tymor yr Haf, cafwyd, fel arfer, noson o gymdeithasu gyda bareiciw eleni ar fferm Pentre. Diolch i Arwyn ac Eleri am eu croeso cynnes ac am noson arbennig.

Gan fod y tywydd yn sych aeth grŵp o bobol, dan arweiniad Helen Pentre, ar draws caeau a lawr i'r afon Teifi am dro. I gloi y noson cafwyd swper blasus dros ben gyda phawb wedi dod ag amrywiaeth o fwyd i'w rannu.

Arddangosfa



Estynnwn ein llongyfarchiadau cynnes i artistiaid Llanfair a'r cylch ar eu harddangosfa wych eleni eto. Ar y nos Wener cafwyd noson agored swyddogol a baint oedd cael presenoldeb ein haelod seneddol, Ben Lake. Eleni gwnaethom gynnwys plant Ysgol y Dderi blwyddyn 3 a 4 mewn cystadleuaeth arlunio a roedd yn bleser cael Ben yno i drosglwyddo anrhegion i'r enillwyr. Soniodd Ben am yr holl weithgareddau diddorol yn ein pentref, a llongyfarchodd bawb sydd ynghlwm â'r gweithgareddu hyn. Roedd yn hyfryd gweld y neuadd yn gysurus lawn. Diolch hefyd i'r artistiaid gwadd, Huw Williams, Silian a Gwenllian Beynon, Pontrhydfendigaid. Pleser oedd cael eu gwaith yn rhan o'r arddangosfa. Diolch i bawb o'r ardal ac yn bellach a ddaeth i'n cefnogi.

Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Luke ac Eleri ar eu priodas yng nghapel Brondeifi, dydd Sadwrn, Gŵyl y Banc. Mae Luke yn fab i Gareth Davies, Nantymedd, a chafwyd y dathlu mewn marcî prydferth iawn ar dir y ffarm. Hyfryd oedd gweld y pâr ifanc yn teithio lan heol Llanfair mewn cerbyd a cheffylau. Pob lwc iddynt.

Dathlu

Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Eleanor Evans, Nantymedd pan fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 ar Medi 8fed. Joiwch y dathlu.

Sioe Llanfair

Am y bedwaredd blwyddyn yn olynol cynhaliwyd sioe lwyddiannus iawn gyda chefnogaeth mor frwd ag erioed, gyda llawer o gystadlu ymhob dosbarth a phopeth o safon dda neu dda iawn. I drefnu sioe o'r fath mae angen llawer o waith brwd a gwirfoddol gan y pwyllgor, a mae diolch mawr i'r rhain i gyd am eu gwaith ac yn enwedig i Sally Leech am ei gwaith ychwanegol. Am y tro cyntaf eleni defnyddiwyd y cyfrifiadur i gofnodi rhifau yr ymgeiswyr a'r enillwyr ar ôl y beirniadu. Gweithiodd hyn yn dda dros ben yng ngofal Al Heron a Dave Denny. Roedd gennym ddeuddeg o wahanol ddosbarthau - amaethyddiaeth, garddwriaeth a blodau, coginio, cyffeithiau a gwinoedd, celf a gwaith creadigol, sioe gŵn a ieir. Enillydd y tlws parhaol a noddwyd gan Liz Mercer, a'r cwpan a noddwyd gan W.D. Lewis am y pwyntiau mwyaf dros yr holl ddosbarthau oedd Iris Quan, Blaencwm. Enillydd dosbarthau'r plant gyda'r pwyntiau uchaf ac yn derbyn cwpan a noddwyd gan Eleanor Evans, Nant y medd oedd Rhydian Quan, Sŵn yr afon. Y person â'r pwyntiau uchaf ac enillydd y darian yn y dosbarthiadau coginio oedd Iris Quan. Noddwyd y darian hon gan Oswyn Lewis. Cyflwynwyd cwpan newydd eleni gan Ann ac Odwyn Davies, Olmarch er cof am Margaret Davies Jones, Glanhelen, Llanbed. Aeth hwn i'r gacen mwyaf blasus wedi ei choginio gan ddyn. Cafodd y cwpan hwn ei ennill gan Graham Sinclair, Werndale am gacen siocled hyfryd iawn.

Llywydd y sioe oedd Y Parchedig Bill Fillery sydd bob amser mor gefnogol i bopeth sydd ymlaen yn y pentre. I gloi diwrnod arbennig cafwyd barbeciw gyda phawb wedi mwynhau bwyd blasus wedi ei baratoi gan y pwyllgor bwyd. Buont wrthi hefyd yn paratoi te a choffi a chacenau drwy gydol y dydd i'r beirniad a'r stiwardiaid, a phawb arall a fu yn helpu. Ymlaen yn awr i'r flwyddyn nesaf pan fyddwn yn dathlu can mlynedd ers cynnal y sioe gyntaf yn Llanfair yn 1919.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedd
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedd

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Cofio'r adar lliwgar

Mi fydd yna alaru ymhlith pobol byd natur pan fydd aderyn prin yn diflannu. Mae'n golygu un fflach o liw yn llai rhwng y brigau a chawod arall o nodau wedi sychu am byth.

Rhywbeth tebyg ydi hi mewn ardal wledig hefyd pan fydd cymeriadau'n mynd. Ac yn achos dau o golledion yr haf, mae adar yn gymhariaeth berffaith.

A dweud y gwir, allech chi ddim cael cymhariaeth well i Picton ... Picton Jones, Pic yr Ieir ... y bridwr da pluog enwoca' yng Nghymru. Roedd pobol o bob cornel o'r wlad yn gyfarwydd â'i weld ar y teledu o'r Sioe Fawr, yn gwegan dan bwysau rosêts, y wên ddireidus ar ei wefusau a'i lygaid craff yn fflachio.

Ond mewn amgylchiadau hollol wahanol yr o'n i wedi dod i adnabod y deryn o Drefach Llanwnnen. Er ei fod erbyn hynny yn byw yn Llanbedd, yn ei bentre'i hun yr o'n i'n ei weld, ychydig gannoedd o lathenni o'i hen gartre'.

Pan oedd siop Llanwnnen ar agor, roedd hi'n ddefod ddyddiol i alw heibio ar y ffordd i'r gwaith i godi'r papur newydd. Ac mae'n rhaid fod gan Pic rhyw ddefod debyg hefyd achos mi fyddai yno'n aml.

Tynnu coes fyddai wedyn. Pic wedi penderfynu, am ryw reswm, fy mod i'n fwy o genedlaetholwr nag Owain Glyndŵr a Cayo Evans gyda'i gilydd a finnu'n sicr ei fod yntau'n fwy o Ryddfrydwr na Gladstone a Lloyd George.

Roedd Pic yn llawer mwy ffraeth na fi, wrth gwrs, a fo fyddai'n ennill y frwydr fynycha', a'r chwerthiniaid mawr yna wedyn yn llenwi'r siop.

Weithiau, mi fyddai stori leol i'w dweud ac yntau'n llawn gwybodaeth am yr ardal a'i hanes; weithiau, mi fyddai'r sgwrs yn troi at ei lwyddiant diwedddara' gyda'r adar a'r hen ben yn gwybod am holl ddirgelion y grefft.

Pan fydd rhywbeth yn diflannu o fyd natur, mi fydd arbenigwyr yn tynnu gwersi o hynny, yn gweld rhywfaint o hynt a helynt yr amgylchedd i gyd yn niflaniad yr un aderyn.

Yn achos Picton a finnu, mi ddaeth y tynnu coes i ben. Mi gaeodd y siop. A dyna sy'n cael ei golli – y cyfle i bobol daro ar ei gilydd ar hap a dod i sgwrsio a chyd-adnabod.

Wedi hynny, ar wahân i ambell achlysur prin, pasio ein gilydd yn ein ceir yr oedd Picton a finnu; codi llaw, gwenu ... ond dim cyfle i gael sgwrs.

Un o drigolion mwy diweddar bro Clonc oedd y deryn arall, er y byddai llawer o bobol yr ardal yn gyfarwydd ag o, yn sefyll wrth fwllch y clos yn fferm Pyllau'r Bryn ychydig tros y ffin yng nghymdogaeth Y Garthen.

Roedd Hefin yn rhan o'r daith rhwng Cwmsychbant a Rhydowen, yn codi llaw'n ddi-feth wrth ichi yrru heibio. Mae'r hen ffermdy, a'r clos oedd fel bwrdd cegin o lân, bellach wedi mynd, ychydig cyn Hefin ei hun.

Yng nghartre' Maesyfelin yn y Drefach arall y ces i ddod i nabod Hefin; y tu allan i'r drws yn cael mwgyn bach slei neu'n fy nghyfarch yn wresog bob tro'r o'n i'n galw heibio. Yn aml, mi fyddai wrth y bwrdd bwyd, yn barod i roi ei farn yn lliwgar ar arlwy'r dydd.

Yn sydyn yr aeth o; er ei fod yn fach o gorff, roedd rhywsut yn fregus a gwydn yr un pryd a'r peth mawr oedd nad oedd mynd i gartre' ddim wedi pylu'i gymeriad. Roedd hwnnw'n dal i fflachio trwy'i eiriau a'i osgo i gyd.

A dyna'r wers am ei amgylchedd yntau. Mae cartre' fel Maesyfelin yn esiampl prin, lle mae pawb sydd yno'n cael cyfle i fod yn nhw'u hunain. Mae hynny, yn ei dro, yn golygu bod sgwrs i'w chael yno a thynnu coes a chwerthin.

Mewn gormod o gartrefi, mae pawb yn un cylech difywyd mewn stafell fawr, yn edrych ar ei gilydd yn dihoeni. Nid felly y dylai hi fod. Mae gan bawb ei fflach o liw, mae gan bawb ei gawod nodau.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbedd



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbedd, SA48 8EL
01570 422819
www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbedd**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,

Shw mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n ei wneud yn ystod y gwyliau? Wel mi fues i yn adeiladu cestyll tywod ar draeth Cwmtedu, es i am dro i'r goedwig ger Llangybi, am drip i'r pwll nofio a chystadlu yn yr eisteddfod fawr yn Llanbed a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig! Ond nawr mae'n amser mynd nôl i'r ysgol a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Bu'r postmon yn brysur iawn wrth ddod â'r lluniau ac roedd llun Elin Pugh o Aberystwyth yn arbennig. Ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Mari Thomas, Llainteifi, Cae Coedmor, Cwmann. Da iawn, bawb! Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gystadlu a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Mari!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'r adnoddau newydd ar gyfer eich diwrnod cyntaf nôl yn yr ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn dydd Llun, Medi 24ain. Mwynhewch eich lliwio!


Ta ta tan toc.



Mari
Thomas

Enillydd
y mis!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:



Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Llanybydder

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i Ieuan a Thelma, Tegfryn, ar ddathlu eu pen-blwydd priodas ddiemwnt ar y 6ed o Fedi.

Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llanbed

Noson Bingo yn Nghlwb Rygbi, Llanybydder 23 Hydref 2018 am 8 yh. Elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.

Capel Aberduar Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ieuan a Thelma Jones, Tegfryn, Llanybydder sy'n dathlu eu priodas ddiemwnt ar y 6ed o Fedi. Y cyfarchion yn dod oddi wrth aelodau Capel Aberduar a'u ffrindiau oll.

Priodas Saffir

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aerwyn ac Ogwen, 2 Heol y Gaer, Llanybydder sy'n dathlu eu priodas saffir ar y 3ydd o Hydref. Y

cyfarchion yn dod oddi wrth aelodau Capel Aberduar a'u ffrindiau oll.

Bore Coffi Macmillan

Dymuna'r Cyng. Ieuan Davies eich gwahodd i Westy'r Cross Hands, Llanybydder fore dydd Gwener, Medi 28ain o 10.00y.b. - 12.30y.p. Bydd yna stondin poteli a raffl. Dewch yn llu i gefnogi Bore Coffi mwyaf y byd.

Dathlu

Pen-blwydd hapus iawn i Mali Evans, Rylwyn a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed mis diwethaf.

Cydymdeimlad

Ddiwedd mis Awst bu farw Emyr James, gynt o Highlands, yn ei gartref yn Aberystwyth wedi gwaeldd hir. Cydymdeimlwn â'i briod Dulcie, Lowri a Gwion a'u teuluoedd ynghyd â'i chwaer yng nghyfraith Elonwy Davies, Gwendraeth yn eu galar.



Derbyniwyd siec am £292.50 oddi wrth Mrs Gill Evans a'i theulu er cof am Mr Vivian Evans.

Yn y llun mae Dilwen Watkins, Irene Jones, Peter Evans, Paul Evans, Cyng. Ieuan Davies, Gill Evans, Tina Rees, Gari Evans a Susan Evans.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Lyn ac Avril Jones, Lakefield, Llanybydder ar enedigaeth eu hwyres fach, sef merch Geraint ac Iona, Lluest, Maesycrugiau.



Llwyddiannau TGAU a Safon Uwch



Grŵp o'r disgyblion a dderbyniodd y canlyniadau TGAU gorau yn Ysgol Bro Pedr eleni.



Grŵp o'r disgyblion a dderbyniodd y canlyniadau Lefel A gorau yn Ysgol Bro Pedr eleni.

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



Parti Unsain Agored rhwng 6 a 12 mewn nifer - 1af Corisma



Parti Unsain Agored rhwng 6 a 12 mewn nifer - 2il Fel Un.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR

CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB



Parti Llefaru Agored - 1af Sam Helen

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



Unawd dan 6 oed [cyf] - 1. Noa Potter-Jones, Drefach 2. Elliw Grug Davies, Drefach 3. Nanw Melangell Griffiths-Jones, Cwrtnewydd.

Llefaru dan 6 oed [cyf] - 1. Nanw Melangell Griffiths-Jones 2. Elliw Grug Davies.



Llefaru 6-9 oed [cyf] 1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 2. Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd 3. Fflur Morgan, Drefach a Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 4. Fflur Meredith, Llambled a Tirion Marged Tomos, Pencarreg 5. Tia Gilbert, Llambled.



Unawd 6-9 oed [cyf] - Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd 2. Gwenan Lloyd Owen, Llanllwni 3. Fflur Meredith, Llambled 4. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 5. Tirion Marged Tomos, Pencarreg.



Llefaru 9-12 oed [cyf] - 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Elen Morgan, Drefach 3. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig.



Unawd 9-12 oed [cyf] - 1. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 2. Alwena Mair Owen, Llanllwni 3. Rhodri Williams, Llambled 4. Swyn Tomos, Pencarreg 5. Elen Morgan, Drefach.



Enillydd y Wobr Ieuencid yn yr Adran Gwaith Llaw oedd Manon Williams, Pencarreg



Sara Elan a Lowri Elen yn fuddugol ar y ddeuawd emyn agored. Sara Elan hefyd yn ennill ar yr unawd i ferched 12-16 oed, cydradd 1af yn Sgen di dalent dan 16, 3ydd yn Canu Emyr dan 50 oed, 2il Llefaru i Gyfeiliant, 3ydd Unawd Piano 12-19 oed, 2il Llefaru 12-16 oed, 3ydd Llefaru darn o'r Ysgrythur, 3ydd Y Brif Gystadleuaeth Lefaru dan 21 oed, 1af Canu Emyr dan 21 oed a Lowri Elen yn ennill ar ganu Emyr dan 50 oed, 3ydd Llefaru i Gyfeiliant, cydradd 2il Sgen di dalent dros 16 oed, cydradd 3ydd Unawd Sioe Gerdd, 2il Alaw Werin dros 19 oed.



Ianto Jones, Cribyn, 2il Canu Emyr dan 50 oed a chydadd 2il yn Sgen di dalent dros 16 oed.



Enfys Hatcher-Davies, Llanddewi Brefi yn ennill y Llefaru i Gyfeiliant.